Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

# Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy

# Meini Prawf y Gwobrau Genedlaethol

Diweddarwyd Medi 2023

Welsh Network of Healthy School Schemes

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Nodau | 9 |
| Cam Rhagarweiniol | 11 |
| Maeth ac Iechyd y Geg | 17 |
| Gweithgarwch Corfforol / Chwarae Egnïol | 31 |
| Lles Emosiynol a Meddyliol a Pherthnasoedd | 40 |
| Amgylchedd | 49 |
| Diogelwch | 59 |
| Hylendid | 70 |
| Iechyd a Lles yn y Gweithle | 84 |

# Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy – Meini Prawf y Wobr Genedlaethol

## Cyflwyniad

## Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

Ers 2004 mae Llywodraeth Cymru wedi seilio ei pholisi ar gyfer plant a phobl ifanc ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Caiff gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru eu cynllunio a'u darparu yng nghyd-destun y saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n seiliedig ar y Confensiwn, sef:

**Nod 1:** eu bod yn cael dechrau da mewn bywyd a'r sail orau bosibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol (Erthyglau 3, 29 a 36)

**Nod 2:** eu bod yn cael mynediad i ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol (Erthyglau 23, 28, 29 a 32)

**Nod 3:** eu bod yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio (Erthyglau 6, 18-20, 24, 26-29, 32-35, 37 a 40)

**Nod 4:** eu bod yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol (Erthyglau 15, 20, 29 a 31)

**Nod 5:** eu bod yn cael gwrandawiad ac yn cael eu trin â pharch, a bod eu hunaniaeth o ran hil a diwylliant yn cael ei chydnabod (Erthyglau 2, 7, 8, 12-17 ac 20)

**Nod 6:** eu bod yn cael cartref diogel a chymuned sy'n hybu lles corfforol ac emosiynol (Erthyglau 19, 20, 25, 27, 32-35)

**Nod 7:** nad ydynt dan anfantais oherwydd tlodi (Erthyglau 6, 26, 27 a 28)

**O ran y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, mae Erthyglau CCUHP yn arbennig o berthnasol:**

**Erthygl 12:** Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif

**Erthygl 23:** Mae gan blant ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas, a chyn belled ag y bo modd, gydag annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned

**Erthygl 24:** Mae gan blant hawl i'r iechyd gorau posibl, ac i gael gofal iechyd, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a llesiant

**Erthygl 31:** Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig

**Mae materion iechyd hefyd yn elfen allweddol o ddatblygu cynaliadwy, a'r gobaith yw y bydd cysylltu materion iechyd a materion cynaliadwyedd amgylcheddol yn galluogi lleoliadau i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy.**

## Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy

Lansiwyd y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn genedlaethol yn 2011 ar gyfer pob lleoliad gofal plant yng Nghymru fel estyniad o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.

Lansiwyd Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru ym 1999 yn dilyn rhaglen beilot dwy flynedd a oedd yn rhan o fenter Sefydliad Iechyd y Byd/y Comisiwn Ewropeaidd/Cyngor Ewrop, sef Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd Ewrop. Datblygwyd y cynllun yn dilyn argymhellion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a'r bwriad wrth ei sefydlu oedd sicrhau bod cynlluniau ysgolion iach lleol yn cael eu sefydlu mewn partneriaethau iechyd ac addysg ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, ochr yn ochr â'r Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru, yn cael ei ddarparu ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob cynllun yn cyflogi un neu ragor o gydlynwyr ysgolion iach sy'n recriwtio ac yn cynorthwyo ysgolion ac sy'n trefnu hyfforddiant lleol priodol a chyfleoedd achredu. Gall hyn gynnwys cymorth uniongyrchol i'r lleoliad yn ogystal â hyfforddiant ac achrediad. Bydd y lleoliad gofal plant yn penodi ei arweinydd ei hun, a fydd yn gweithio gyda chydlynydd y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy i gynllunio a gweithredu'r camau gweithredu a nodwyd. Wrth i'r lleoliadau symud ymlaen drwy'r cynllun, disgwylir i fesurau gwella iechyd gael eu hymgorffori yn niwylliant ac ethos y lleoliad o ddydd i ddydd er mwyn gwneud gwahaniaeth parhaol.

Mae meini prawf y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn cynnwys dangosyddion clir ar gyfer pedair agwedd gyson ar arfer:

Arweinyddiaeth a Chyfathrebu, Cynllunio a Chyflawni, Ethos a'r Amgylchedd, a Chynnwys Teuluoedd a'r Gymuned.

Ystyrir y rhain yn ystod cam rhagarweiniol ac yna ar draws saith agwedd thematig:

- Maeth ac Iechyd y Geg
- Gweithgarwch Corfforol a Chwarae Egnïol
- Lles Emosiynol a Meddyliol gan gynnwys Perthnasoedd
- Yr Amgylchedd
- Diogelwch
- Hylendid
- Iechyd a Lles yn y Gweithle

## Beth yw ystyr cynaliadwy yn y cyd-destun hwn?

Mae'r defnydd o'r gair cynaliadwy yn nheitl y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Yng Nghymru, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan gyflawni ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru yn nodi saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru iachach a Chymru sy'n fwy cyfartal.

## Cysylltiadau â rhaglenni a sefydliadau eraill

### Cwricwlwm i Gymru (a chanllawiau ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir)

Mae darpariaeth addysg feithrin o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygiad plentyn. Mae'r profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithredol a chyflogaeth yn y dyfodol yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Mae Cwricwlwm i Gymru ar gyfer lleoliadau gofal plant a gynhelir yn anelu at greu mewn plant, dueddiadau cadarnhaol tuag at ddysgu a fydd, o'u meithrin, yn para am oes ac yn darparu'r sylfaen gadarn sydd ei hangen ar bob plentyn i'w cefnogi i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru; y bydd ein holl blant a phobl ifanc:

- Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes
- Yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Yn ddinasyddion Cymru a'r byd sy'n egwyddorol a gwybodus
- Yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd wedi'i ddatblygu i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ei fabwysiadu. Dylai lleoliadau sy'n dewis mabwysiadu'r cwricwlwm hwn ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gefnogi gwaith cynllunio effeithiol i sicrhau y darperir cwricwlwm sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr ieuengaf.

Mae'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn cefnogi ac yn ategu egwyddorion sylfaenol a fframwaith dysgu'r Cwricwlwm i Gymru drwy gyfrannu at y llwybrau datblygu isod:

- perthyn
- cyfathrebu
- archwilio
- datblygiad corfforol
- lles

## Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Mae wedi'i hanelu at deuluoedd sydd â phlant o dan bedair oed. Dangoswyd bod elfennau craidd y rhaglen yn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau i blant a'u teuluoedd. Mae’r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn cefnogi egwyddorion sylfaenol a fframwaith dysgu ar gyfer Dechrau’n Deg drwy gyfrannu at ddarpariaeth gofal plant o safon; datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, iechyd corfforol plant, mae’n cefnogi rhieni a'r gymuned, gall hefyd gyfrannu at asesu ac adrodd cyffredinol.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Arolygiaeth Cymru (AGC) yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae AGC yn rheoleiddio ac yn arolygu darpariaeth lleoliadau cyn-ysgol gan ddefnyddio’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.

## Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed

Mae gofal plant a reoleiddir yn cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ddarpariaeth sy'n ddarostyngedig i set o safonau gofynnol cenedlaethol. Rhaid i bob darparwr gofal plant cofrestredig roi sylw i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant dan 12 oed a lleihau risgiau i'w lles a'u diogelwch. Mae'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn cefnogi’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol drwy anelu at wella ansawdd iechyd a llesiant mewn lleoliadau cyn-ysgol: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-05/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio_0.pdf

## Blynyddoedd Cynnar Cymru

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cefnogi rhieni a theuluoedd i gymryd rhan yn natblygiad eu plant, maent yn annog ymagwedd integredig at addysg a gofal plant ar gyfer pob plentyn 0-5 oed. Mae’r dull hwn yn cyd-fynd â’r agwedd ar Les Emosiynol a Meddyliol gan gynnwys Perthnasoedd sy’n canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol babanod a phlant ifanc, gan gynnwys eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol i gefnogi lles a dysgu gydol oes.

## ESTYN

Mae Estyn wedi nodi bod y cynllun hwn yn darparu fframwaith i'w ddefnyddio gan leoliadau cyn-ysgol i werthuso eu darpariaeth ar gyfer hybu iechyd a lles plant a staff; ac i nodi dulliau posibl o wella'r ddarpariaeth honno.

## Cynllun Gwên

Rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg ymysg plant Cymru yw Cynllun Gwên. Mae agwedd maeth ac iechyd y geg y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn adlewyrchu ymagwedd lleoliad cyfan i sicrhau arfer da mewn perthynas ag iechyd y geg yn unol â’r rhaglen Cynllun Gwên: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cynllun-gwen/

## Cymru Iach ar Waith

Nod rhaglen Cymru Iach ar Waith a arweinir yn ddigidol yw cefnogi ac annog cyflogwyr i greu amgylcheddau gwaith iach a diogel, cymryd camau i wella iechyd a llesiant eu staff, rheoli absenoldeb salwch yn dda ac ymgysylltu â chyflogeion yn effeithiol. Gall pob un o’r elfennau hyn helpu i gyflawni ystod o ganlyniadau busnes a sefydliadol cadarnhaol. Mae https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cymru-iach-ar-waith/ yn cynnwys gwybodaeth, canllawiau ac offer ar ystod eang o faterion yn ymwneud ag amgylcheddau gwaith iach, ffyrdd iach o fyw yn y gwaith, a gweithwyr ag anghenion iechyd. Mae'r cynnwys yn gallu cefnogi lleoliadau'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy gydag agwedd Gweithle Iach y cynllun

## Sut bydd y Cynllun yn cael ei weithredu?

Caiff y Cynllun Cyn-ysgol Iach ei weithredu a'i achredu ar ffurf 'camau'. Mae pob cam yn para oddeutu blwyddyn. Rhaid i leoliadau weithio i ddatblygu a hyrwyddo wyth maes gweithredu penodol y cynllun.

**Cam Rhagarweiniol** Mae ymagwedd lleoliad cyfan yn golygu cynllunio rhaglenni iechyd cydgysylltiedig, cynhwysfawr a blaengar, sydd o fudd i gymuned gyfan y lleoliad.

**Maeth ac Iechyd y Geg** Adlewyrchu dull gweithredu'r lleoliad cyfan yn ymwneud â bwyd, maeth ac iechyd y geg, ac sy'n cynnwys hybu deiet iach a chytbwys yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol ac arfer da cyfredol mewn perthynas ag iechyd y geg.

**Gweithgarwch Corfforol / Chwarae Egnïol** Bydd lleoliadau'n cefnogi ac yn hybu ystod eang o weithgareddau corfforol hygyrch a chyfleoedd hygyrch ar gyfer chwarae egnïol i'r plant a'r staff, gan gynnwys mynediad i amgylcheddau a phrofiadau chwarae sy'n diwallu anghenion plant o ran datblygu.

**Lles Emosiynol a Meddyliol gan gynnwys Perthnasoedd**
Mae'n adlewyrchu ethos y lleoliad, a ddylai annog parch gan bawb at ei gilydd a hybu pob agwedd ar les emosiynol a meddyliol pawb sy'n gweithio yn y lleoliad. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu perthnasoedd cadarnhaol, ac felly mae'n ymdrin â rhai agweddau ar ddatblygiad personol. Bydd cymhwyso'r agwedd ragarweiniol yn ogystal â Llesiant Emosiynol a Meddyliol gan gynnwys yr agwedd ar berthnasoedd yn cefnogi lleoliadau i gyflawni eu dyletswyddau o dan y fframwaith statudol ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/framework-on-embedding-a-whole-school-approach-to-emotional-and-mental-well-being.pdf

**Yr Amgylchedd** Bydd lleoliadau'n hybu amgylchedd diogel ac ysgogol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y bobl sydd ynddo, gan roi pwys ar ofalu am yr amgylchedd y tu mewn i'r lleoliad a'r tu allan iddo.

**Diogelwch** Bydd lleoliadau'n adlewyrchu agwedd ragweithiol at bob agwedd ar ddiogelwch gan gynnwys gwaith ar bob sylwedd. Dylid cydnabod y gallai'r defnydd y mae rhieni a staff yn ei wneud o alcohol a sylweddau anghyfreithlon effeithio ar ddiogelwch y plant yn y lleoliad. Caiff ysmygu ei gynnwys yn yr adran hon hefyd, ond dylid ei ystyried nid yn unig yn fater sy'n ymwneud â diogelwch ond yn fater sy'n ymwneud ag iechyd hefyd. Mae rhai agweddau ar ddiogelwch yn statudol, er enghraifft, diogelu, iechyd a diogelwch ac er y cyfeirir at y rhain bydd angen eu hystyried ar wahân yn fanylach. Mae imiwneiddio hefyd yn cael ei drafod yma fel mater diogelwch. Mae cadw cofnodion o imiwneiddio yn arfer da sy'n ddefnyddiol os bydd brigiad o achosion.

**Hylendid** Bydd lleoliadau'n adlewyrchu hylendid da, oherwydd mae'n rhywbeth sy'n hollbwysig i leoliadau'r blynyddoedd cynnar. Mae ymagwedd lleoliad cyfan yn hanfodol gydag arweinyddiaeth gref, i leihau neu atal clefydau trosglwyddadwy a'u lledaeniad i hyrwyddo arferion da ar gyfer atal a rheoli heintiau ymhlith staff, plant a'u teuluoedd.

**Iechyd a Lles yn y Gweithle** Hyrwyddo gweithleoedd ag ymrwymiad i iechyd a lles yr holl staff. Mae gwaith da yn bwysig ar gyfer iechyd a lles corfforol a meddyliol. Bydd gan gyflogwyr sy'n mabwysiadu arferion gweithio da weithlu hapus, iach a chynhyrchiol sydd â lefelau is o absenoldeb.

## Cynllunio camau gweithredu

Nid gweithgaredd sy’n digwydd unwaith yn unig yw cam gweithredu. Mae’n ddarn o waith wedi’i gynllunio a fydd yn symud y lleoliad yn ei flaen fel lleoliad sy’n hybu iechyd. Mae’n ddefnyddiol cofio y dylai camau gweithredu fod yn rhai:

- Penodol.
- Mesuradwy.
- Cyraeddadwy.
- Uchelgeisiol.
- Sy’n dilyn Amserlen

Dylai pob cam gael ei weithredu gan gadw’r egwyddorion canlynol mewn cof:

- Dylai fod strwythur rheoli cefnogol ar waith yn y lleoliad
- Dylid ymgynghori'n llawn â rhieni/gofalwyr a phlant (pryd bynnag y bo modd) a’u cynnwys lle bynnag y mae camau gweithredu’n effeithio arnynt
- Dylai pob cam gweithredu gynnwys dull lleoliad cyfan

## Gweithredu

Dylai cynlluniau gweithredu gael eu rhoi ar waith dros gyfnod realistig y cytunwyd arno. Bydd angen i’r holl gamau gweithredu gael eu monitro a’u gwerthuso er mwyn deall eu heffaith a chefnogi gwaith cynllunio a chamau gweithredu pellach. Bydd monitro effaith hefyd yn eich helpu i ddangos sut mae pob cwestiwn asesu wedi'i fodloni.

## Monitro

Bydd y cydlynydd yn monitro pob lleoliad yn barhaus. Gallai hynny ddigwydd ar ffurf ymweliad a drefnwyd ymlaen llaw â'r lleoliad neu mewn cyfarfodydd rhwydwaith.

## Tystiolaeth

Trwy gydol pob cam o'r cynllun, gofynnir i bob lleoliad gasglu tystiolaeth berthnasol, gan ddangos sut mae camau gweithredu a gofynion o bob agwedd wedi’u hymgorffori'n llwyddiannus. Bydd y cydlynydd yn rhoi cymorth i leoliadau wneud hyn ac yn cynghori bod lleoliadau’n casglu tystiolaeth yn barhaus o bob math o weithgareddau sy'n cael eu cynnal drwy gydol y cyfnod. Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn asesu a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael yn adeg yr achrediad. Gall tystiolaeth fod fel a ganlyn:

**D Dogfennau** – er enghraifft, tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau cyfryngau cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau.

**A Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i’r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi’r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae’r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion, llyfrau lloffion/llawr.

**N Naratif** – mae’r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag Unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu.

## Gwerthusiad

Er mwyn dangos effaith gadarnhaol mentrau a gweithgareddau a gyflwynwyd, mae'n bwysig bod lleoliadau'n gwerthuso gweithgareddau ac yn darparu tystiolaeth o'r gwerthuso hwn fel rhan o'u portffolio o dystiolaeth.

Bydd hynny yn helpu'r lleoliad i ddatblygu ymhellach a gwella'n barhaus.

Gallai'r dulliau gwerthuso gynnwys:

- Casglu barn, cyn ac ar ôl digwyddiad neu weithgaredd
- Holiaduron
- Grŵp trafod neu gyfweliadau anffurfiol
- Arsylwadau cyn ac ar ôl digwyddiad neu weithgaredd
- Barn y staff/y tîm rheoli ynghylch arferion
- Mesur cyfranogiad y plant mewn gweithgareddau.

## Cydweithio

Caiff lleoliadau eu hannog yn daer i gysylltu â lleoliadau eraill sy'n gweithio tuag at gael eu hachredu, er mwyn cael cymorth ychwanegol. Argymhellir hefyd bod lleoliadau'n cysylltu â'u swyddogion blynyddoedd cynnar a gofal plant i gael cymorth, cyngor ac arweiniad fel y bo angen, a'u bod bob amser yn gofyn am gymorth gan y sawl sy'n perthyn i gymuned y lleoliad.

## Achrediad

Ar ddiwedd pob un o gamau'r cynllun, argymhellir bod lleoliad yn cael ei achredu a bydd yn cael ei asesu gan gydlynwyr ysgolion iach cyhyd â bod digon o dystiolaeth ar gael i ddangos bod pob un o gwestiynau asesu'r meysydd gweithredu yn y cam hwnnw wedi'u cyflawni.

Mae achredu'n rhan gyffrous a phwysig o'r broses, pan fydd lleoliadau'n cael eu llongyfarch ac yn cael cydnabyddiaeth swyddogol am y gwaith y maent wedi'i wneud. Mae'n gyfle gwych i rannu eich llwyddiant gyda chymuned y lleoliad a chyfleu eich ymrwymiad i iechyd a lles.

Mae Lleoliad Cyn-ysgol Iach yn lleoliad sydd nid yn unig yn gweithio tuag at gael ei achredu ond sydd hefyd yn ymgorffori ac yn cynnwys iechyd a lles yn ei fywyd pob dydd. Mae ail-achrediad yn digwydd bob dwy flynedd.

## Nodau

- Cymryd camau i hybu'r gwaith o ddatblygu hunan-barch cadarnhaol pob aelod o gymuned y lleoliad cyn-ysgol
- Cymryd camau i ddatblygu perthnasoedd da ym mywyd pob dydd y lleoliad cyn-ysgol
- Nodi, datblygu a chyfleu ethos cadarnhaol sy'n hybu parch at bawb, a dull gadarnhaol o ymdrin â iechyd, yr amgylchedd a'r gymuned
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i elwa ar heriau ysgogol a'r hawl i chwarae
- Manteisio ar bob cyfle i wella amgylchedd y lleoliad cyn-ysgol
- Datblygu cysylltiadau da rhwng y lleoliad/y cartref/y gymuned a datblygu gweithgareddau ar y cyd
- Annog yr holl staff i gyflawni eu rôl o safbwynt hybu iechyd a chynaliadwyedd ecolegol, drwy ddatblygiad a hyfforddiant i staff
- Sicrhau bod llesiant emosiynol pob plentyn yn cael ei feithrin cyn gynted â phosibl
- Datblygu a chyflwyno gweithgareddau a phrofiadau cydlynol yn ymwneud â iechyd
- Sefydlu cysylltiadau da â lleoliadau ac ysgolion cysylltiedig er mwyn sicrhau proses bontio esmwyth
- Datblygu'r lleoliad yn weithle hybu iechyd ac sydd ag ymrwymiad i ddiogelu iechyd a lles yr holl staff
- Datblygu polisïau ac arferion cyson sy'n ategu ei gilydd ac sy'n adlewyrchu dull cadarnhaol o ymdrin ag iechyd a'r amgylchedd
- Datblygu partneriaethau ag asiantaethau ac unigolion allanol priodol er mwyn cael cyngor a chymorth gweithredol i hybu iechyd a chynllunio yn y lleoliad
- Sicrhau bod hawliau pob plentyn sydd yng ngofal y lleoliad yn cael eu parchu
- Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu cefnogi
- Sicrhau bod staff yn teimlo eu bod gyda'r hyder i gynnig cyngor a chefnogaeth berthnasol mewn perthynas â iechyd a llesiant

# CAM RHAGARWEINIOL

## Cam Rhagarweiniol

**Mae'r adran hon yn adlewyrchu pwysigrwydd cael dull cydlynol, cynhwysfawr a blaengar o ymdrin ag iechyd a lles y plant a'r staff, sy'n cynnwys cymuned y lleoliad cyfan. Mae angen bodloni'r holl gwestiynau asesu yn yr adran hon er mwyn darparu fframwaith i fynd i'r afael â'r agweddau ar iechyd sy'n dilyn, a dylid mynd i'r afael â'r cwestiynau ar y cyd â phob adran.**

Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

| | |
|---|---|
| D | **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau. |
| A | **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i'r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae'r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion/llawr. |
| N | **Naratif** – mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu. |

| Gofynion Sylfaenol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 1.1 | A oes gan y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy gefnogaeth lawn tîm arwain y lleoliad i alluogi dull lleoliad cyfan a chyfranogiad staff cyfan? | • Ffurflen ymrwymo i’r cynllun lleol<br>• Y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy ar agenda cyfarfodydd staff<br>• Mae'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn rhan o raglen sefydlu staff | | |
| 1.2 | A oes gan y lleoliad gydlynydd cynllun dynodedig y mae ei gyfrifoldebau allweddol wedi'u diffinio, a fydd yn gweithio gyda'r cydlynydd lleol, wedi'i gefnogi lle bo'n briodol gan aelodau eraill o staff? | | | |
| 1.3 | A yw'r lleoliad wedi cynnal adolygiad o weithgareddau iechyd, lles a chynaliadwyedd i ddathlu ac adeiladu ar arferion dda ac i nodi meysydd i'w datblygu ymhellach? | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.4 | Sut mae'r lleoliad wedi ystyried blaenoriaethau/materion iechyd lleol o fewn y gwaith cynllunio iechyd a lles? | Gall y lleoliad ddangos sut y maent wedi ystyried blaenoriaethau lleol, er enghraifft:<br>• Wedi siarad â phartneriaid iechyd cyhoeddus lleol<br>• Wedi adolygu strategaethau iechyd lleol<br>• Wedi adolygu data iechyd plant lleol | | |
| 1.5 | Sut mae'r lleoliad wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gefnogi iechyd a lles? | • Awdurdod Lleol (er enghraifft seicolegydd addysg, swyddog anghenion dysgu ychwanegol)<br>• Gwasanaethau ac asiantaethau iechyd (er enghraifft, ymwelydd iechyd, dieteteg, lleferydd ac iaith, tîm diogelu iechyd)<br>• Rhaglenni / mentrau gwella iechyd (er enghraifft Cynllun Gwên, Datblygu Chwaraeon, Cymru Iach ar Waith) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.6 | Pa wybodaeth iechyd a hybu iechyd ydych yn ei chynnwys yn eich pecynnau croeso i rieni/gofalwyr? | • Gwybodaeth gofrestru ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd lleol (er enghraifft meddygon, ymwelwyr iechyd, deintydd ac optegydd)<br>• Gwybodaeth iechyd (er enghraifft imiwneiddiadau i blant, cyfnodau gwahardd o'r lleoliad ar gyfer heintiau cyffredin, gwybodaeth am dalebau Cychwyn Iach)<br>• Polisïau iechyd a hyrwyddir gan y lleoliad (er enghraifft y polisi mangre ddi-fwg)<br>• Gallai enghreifftiau o wybodaeth arall a ddarperir gynnwys gwybodaeth am ddiogelwch, cyngor, adnoddau neu ganllawiau ar faeth, cyngor, adnoddau neu ganllawiau ar weithgarwch corfforol<br>• Cofrestru gyda meddygon, ymwelydd iechyd, deintydd, optegydd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.7 | Sut mae eich lleoliad yn gwneud datganiad cryf am bwysigrwydd iechyd a llesiant a sut ydych chi'n hysbysu rhieni/gofalwyr am eich rhan yn y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy a phwysigrwydd iechyd a llesiant? | • Pecyn croeso<br>• Datganiad o genhadaeth / diben<br>• Nodau / gweledigaeth<br>• Cylchlythyrau, apiau, cyfryngau cymdeithasol | | |
| 1.8 | A yw pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant statudol ar ddiogelu? | • Gweithdrefnau Diogelu Cymru<br>• Ardystio hyfforddiant | | |
| 1.9 | A yw pob aelod o staff wedi cael gwybodaeth am glefydau y gellir eu hatal â brechlyn a gwybodaeth am yr imiwneiddiadau a argymhellir ar gyfer plant a staff? | • Amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant yn cael ei rhannu â staff<br>• Ffynonellau gwybodaeth credadwy ynghylch brechlynnau ar gyfer clefydau y gellir eu hatal yn cael eu rhannu â staff<br>• Hyfforddiant staff gan bartneriaid iechyd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.10 | Pa gynlluniau, gweithdrefnau a/neu bolisïau sydd ar waith i hyrwyddo tegwch a chynhwysiant ac osgoi stereoteipio neu wahaniaethu? | • Cynllun gweithredu cydraddoldeb<br>• Datblygu ac adolygu polisïau mewn perthynas â chyfle cyfartal, anghenion dysgu ychwanegol, anghenion iechyd ychwanegol<br>• Mae polisi ymddygiad yn rhoi ystyriaeth benodol i fwlio a gwahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig<br>• Gall lleoliad ddisgrifio sut maent yn gweithio o fewn egwyddorion Dull Gweithredu'n seiliedig ar Hawliau Plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a/neu hawliau Plant yng Nghymru yn y blynyddoedd cynnar | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.11 | Sut mae eich lleoliad yn cyfrannu at ddealltwriaeth leol a chenedlaethol o iechyd a lles trwy gwblhau data perthnasol a rhannu gwybodaeth? | • Darparu setiau data cyflawn a chywir fel sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol, partneriaid cyflenwi ac ariannu (yn unol â GDPR)<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data lleol/cenedlaethol<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil (lle bo'n briodol) | | |
| **Ystyriaethau dymunol:** | | | | |
| 2.1 | A yw eich lleoliad yn cadw cofnod o statws yr holl blant a'r staff o ran imiwneiddio? | • Ffurflenni derbyn ar gyfer y plant<br>• Rhaglen sefydlu a chofrestru staff | | |

# MAETH AC IECHYD Y GEG

## Maeth ac Iechyd y Geg

**Mae’r adran hon yn adlewyrchu dull gweithredu’n ymwneud â bwyd, maeth ac iechyd y geg, sy’n ymdrin â’r lleoliad cyfan. Mae'n cynnwys hybu deiet iach a chytbwys ar sail canllawiau cenedlaethol ac arferion da cyfredol o ran iechyd y geg.**

Rhaid mynd i’r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

**D** **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau.

**A** **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i’r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi’r hyn y mae’r lleoliad wedi’i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae’r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion/llawr.

**N** **Naratif** – mae’r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu.

| Arweinyddiaeth a Chyfathrebu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 1.1 | Pa bolisïau sydd gennych ar waith, sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, i arwain eich gwaith ar faeth ac iechyd y geg ac ar ddarparu ar gyfer deiet arbennig? | Polisi bwyd/maeth ar waith sy'n cyd-fynd â Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau Gofal Plant, Canllawiau Arfer Gorau ac sy'n cynnwys: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/190313-nutrition-guidance-complete-cymraeg.pdf<br>• Darparu prydau bwyd, byrbrydau a diodydd<br>• Hybu pecynnau bwyd iach<br>• Darparu ar gyfer deiet arbennig<br>• Bwyd ar gyfer dathliadau a gwibdeithiau a bwyd y deuir ag ef i'r lleoliad<br>• Gwybodaeth am alergeddau<br>• Yr amgylchedd bwyta<br>• Defnyddio polisi dymi<br>• Wedi nodi'r arweinydd cyfrifol ar gyfer maeth yn y lleoliad<br>• Protocol Cynllun Gwên (lle bo'n gymwys) neu bolisi iechyd y geg | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2 | Pa hyfforddiant ynghylch pa faeth ac iechyd y geg ydy'r staff wedi'i gael, a sut y mae hynny wedi dylanwadu ar arferion? | • Agored Cymru: Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 2 ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar<br>• Hyfforddiant lleol ynghylch byrbrydau iach<br>• Hyfforddiant lleol ynghylch bwyd, maeth a sgiliau coginio<br>• Hyfforddiant Diogelwch Bwyd<br>• Hyfforddiant Cynllun Gwên<br>• Tystiolaeth o arfer | | |
| **Cynllunio a Chyflawni** | | | | |
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 2.1 | Pa weithgareddau a phrofiadau ydych yn eu darparu sy'n golygu bod y plant yn gwneud penderfyniadau am ddewisiadau iach o ran bwyd ac yn blasu bwydydd newydd? | • Cynnig amrywiaeth o fyrbrydau iach sy'n gyson â'r canllawiau cyfredol<br>• Atgyfnerthiad cadarnhaol i blant sy'n rhoi cynnig arnynt<br>• Gemau arogli, cyffwrdd a blasu gyda bwydydd priodol o'r grwpiau bwyd (er enghraifft gemau teimlo) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae rôl dilys a chyfarwydd (er enghraifft tyfu, coginio a siopa bwydydd iach a chynaliadwy)<br>• Cynnwys plant wrth helpu i baratoi a gweini prydau a byrbrydau iach<br>• Straeon, caneuon, llyfrau, jig-sos a dathliadau ar y thema bwyd<br>• Tyfu ffrwythau a llysiau<br>• Dysgu am bwysigrwydd deiet cytbwys<br>• Annog plant i ddatblygu gwybodaeth am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd (er enghraifft, rhoi cynnig ar fwyd a ryseitiau o wahanol ddiwylliannau) | | |
| 2.2 | Sut yr ydych yn ymgorffori gwaith hybu iechyd deintyddol/iechyd y geg a hylendid deintyddol ym mywyd y lleoliad? | • Os yn gymwys, cymryd rhan yn rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth Cynllun Gwên, gan gynnwys bodloni ei safon ofynnol<br>• Gweithgareddau priodol i oedran sy'n helpu plant i ddysgu am iechyd da'r geg (er enghraifft gweithgareddau brwsio dannedd, chwarae rôl ymweld â deintydd) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Hwyluso ymweliad gan ddeintydd neu nyrs ddeintyddol wrth ymdrin â'r pwnc "pobl sy'n ein helpu<br>• Plant chwe mis oed neu hŷn yn defnyddio cwpanau â chaead nad oes angen sugno diod ohonynt<br>• Plant 12 mis oed neu hŷn yn defnyddio cwpanau heb gaead<br>• Byrbrydau a diodydd sy'n dda i'r dannedd | | |
| 2.3 | Sut yr ydych yn annog sgiliau coginio iach? | • Y plant yn helpu i baratoi a gweini eu byrbryd eu hunain<br>• Gweithgareddau coginio a gynllunnir ar gyfer y plant (er enghraifft gwneud toes, paratoi ffrwythau a llysiau, dysgu dulliau sylfaenol o baratoi bwyd)<br>• Bwyd/coginio ar gyfer dathliadau (er enghraifft  cawl cennin a thatws ar Ddydd Gŵyl Dewi)<br>• Tyfu a choginio llysiau a gaiff eu tyfu yn yr ardd gyda'r plant<br>• Archwilio bwydydd iach o bob rhan o'r byd, a rhoi cynnig arnynt | | |
| 2.4 | Pa fentrau lleol/cenedlaethol yr ydych yn rhan ohonynt sy'n hybu maeth ac iechyd y geg ymysg y plant neu'r rhieni/gofalwyr? | • Cynllun Gwên (le bo'n gymwys)<br>• Hyfforddiant, rhaglenni neu fentrau bwyd a maeth lleol<br>• Gwobr leol ar gyfer byrbrydau iach | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.5 | Sut yr ydych yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu darparu/bod negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi mewn perthynas â bwyd ac iechyd ar draws y lleoliad cyfan? Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y bwyd a diod a ddarperir yn y lleoliad yn cyd-fynd â'r dysgu a fwriedir. | • Mae'r staff yn bwyta gyda phlant ac yn ymddwyn fel modelau rôl bwyta'n iach<br>• Ni ddefnyddir bwyd fel gwobr o fewn y lleoliad<br>• Osgoi dylanwad ymgyrchoedd hyrwyddo a chynnyrch wedi'i frandio sy'n gwrthdaro â negeseuon iach<br>• Sicrhau cysondeb ar draws yr holl ddarpariaeth o ran bwyd a diod (er enghraifft partïon, dathliadau, gweithgareddau bwyd a chwarae, y bwyd y deuir ag ef i'r lleoliad)<br>• Cynnwys yr amgylchedd ehangach yn y polisi bwyd (er enghraifft bwyd ar wibdeithiau ac yn ystod gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad) | | |
| **Ethos a'r Amgylchedd** | | | | |
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Sut yr ydych yn creu amgylchedd sy'n hybu bwyta ac yfed yn iach fel profiad pleserus, a sut yr ydych yn cynnwys y plant? | • Holiaduron i rieni/gofalwyr er mwyn cael eu barn am y ddarpariaeth o ran bwyd<br>• Cyfarfodydd staff i drafod y ddarpariaeth o ran bwyd a gweithgareddau bwyta’n iach | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gwaith cynllunio a ysgogir gan y plant ar gyfer gweithgareddau bwyd. Mae’n cynnwys sesiynau blasu bwyd, wynebau hapus/trist i ddangos beth yw eu hoff fwyd<br>• Y plant a’r staff yn bwyta byrbrydau a phrydau bwyd gyda’i gilydd wrth y bwrdd<br>• Amser byrbryd ac amser cinio/te yn brofiadau pleserus a chymdeithasol<br>• Canmol a/neu wobrwyo plant sy’n ymddwyn yn gadarnhaol yn ystod amseroedd bwyta<br>• Neilltuo digon o amser i fwyta<br>• Darparu cyllyll a ffyrc priodol<br>• Mae'r plant yn gweini eu hunain ac yn gwneud gweithgareddau (er enghraifft, taenu bara, arllwys llaeth) | | |
| 3.2 | Sut yr ydych yn cael gafael ar fwyd lleol a thymhorol lle bo’n bosibl? | • Cyflenwr ffrwythau a llysiau lleol<br>• Gweithgareddau rhandir – plannu a thyfu<br>• Mae'r fwydlen yn adlewyrchu'r bwydydd tymhorol sydd ar gael | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod maint dognau'n briodol? | • Gwybodaeth a gafwyd ac a gymhwyswyd o gwrs Agored Cymru: Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 2 ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar<br>• Cael gafael ar wybodaeth trwy Fwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant, Canllawiau Arfer Gorau neu adnoddau priodol eraill<br>• Prosesau ar waith i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o faint priodol dognau | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.4 | Sut yr ydych yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu amgylchedd sy’n hybu ac yn cefnogi bwydo ar y fron? | • Modelu rolau (er enghraifft wrth chwarae â doliau)<br>• Rhannu straeon sy'n cynnwys bwydo ar y fron<br>• Siarad â phlant am eu brodyr a chwiorydd sy'n cael eu bwydo ar y fron<br>• Mamau’n cael eu croesawu i’r lleoliad ac yn teimlo’n gyffyrddus wrth fwydo ar y fron yno<br>• (lle bo'n gymwys) Lleoliad yn ymwneud â Menter Cyfeillgar i Fabanod Unicef<br>• Gwybodaeth am fwydo ar y fron yn cael ei harddangos yn y lleoliad ac ar gael i rieni (er enghraifft adnoddau Menter Cyfeillgar i Fabanod Unicef, adnoddau Naw Mis a Mwy)<br>• Cynnwys dolenni i wybodaeth am fwydo ar y fron a gwybodaeth am ddychwelyd i’r gwaith ar gyfer rhieni neu staff newydd (Cynllun Gweithredu pum mlynedd Bwydo ar y Fron Cymru GYFAN Llywodraeth Cymru)<br>• Cymryd rhan yn Wythnos Bwydo ar y Fron y Byd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.5 | Sut yr ydych yn annog pobl yn weithredol i ddarparu pecynnau bwyd a phrydau bwyd iach a ddarperir gartref, a sut yr ydych yn rhoi gwybodaeth i blant a rhieni/ gofalwyr lle bo'n briodol? | • Polisi pecyn bwyd iach ar waith sydd wedi'i gyfathrebu'n glir i rieni/gofalwyr<br>• Arddangosfeydd ynghylch pecynnau bwyd iach<br>• Darperir adnoddau pecyn bwyd iach i rieni/gofalwyr (er enghraifft, syniadau am ryseitiau)<br>• Gweithgareddau coginio teuluol | | |
| 3.6 | Sut yr ydych yn addysgu plant i olchi eu dwylo ac yn eu haddysgu am bwysigrwydd golchi dwylo'n dda cyn bwyta? | • Gweithgareddau golchi dwylo gan ddefnyddio caneuon a phosteri<br>• Golchi dwylo'n rhan o'r drefn ddyddiol arferol ar gyfer plant a staff cyn paratoi neu fwyta unrhyw fwyd | | |
| 3.7 | A gaiff y byrddau eu glanhau'n effeithiol â deunydd glanhau cyn ac ar ôl gweini a bwyta bwyd? | • Amserlen ar waith ar gyfer glanhau<br>• Mae deunydd glanhau yn bodloni safonau diogelwch bwyd Prydeinig cyfredol<br>(BS EN 1276 a BS EN 13697) | | |

## Cynnwys Teuluoedd a’r Gymuned

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried, nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sut yr ydych yn ymgysylltu ag unigolion, asiantaethau allanol, busnesau a/neu aelodau’r gymuned er mwyn hybu maeth ac iechyd y geg? | • Holiaduron i rieni/gofalwyr yn gofyn am gymorth perthnasol<br>• Gweithio gyda'r gwasanaeth deintyddol cymunedol, ymwelydd iechyd, dietegwyr, lleferydd ac iaith<br>• Ymweliadau ag archfarchnadoedd lleol gyda'r plant<br>• Ymweliad â rhandiroedd lleol gyda phlant | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2 | Pa wybodaeth yr ydych yn ei darparu i rieni/gofalwyr am bwysigrwydd maeth da ac iechyd da'r geg? | • Cylchlythyrau, gwefan, cyfryngau cymdeithasol a/neu arddangosfeydd yn cynnwys gwybodaeth am faeth ac iechyd y geg (er enghraifft bwydlenni, rhestr fyrbrydau, taflenni, polisi bwyd)<br>• Nosweithiau/sesiynau i rieni/gofalwyr<br>• Siaradwyr yn dod i'r lleoliad i drafod bwyd, maeth neu iechyd y geg<br>• Sesiynau blasu bwyd i rieni, defnyddio ryseitiau o'r fwydlen<br>• Sicrhau bod ryseitiau ar gael i rieni/gofalwyr roi cynnig arnynt gartref (er enghraifft rysáit yr wythnos/mis) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.3 | Sut yr ydych yn ymgysylltu'n weithredol â rhieni/gofalwyr i rannu gwybodaeth am y modd y mae plant yn derbyn bwydydd newydd? | • Adborth mewn dyddiadur ynghylch y bwyd y mae'r plentyn wedi'i fwyta<br>• Adborth llafar gweithiwr allweddol ynghylch y bwyd y mae'r plentyn wedi'i fwyta<br>• Arddangosfeydd sy'n dangos yr bwyd y mae'r plant wedi'i fwyta heddiw/yr wythnos hon<br>• Arddangosfeydd sy'n dangos y plant yn cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â bwyd<br>• Rhannu ryseitiau y mae'r plant wedi'u mwynhau â'u teuluoedd<br>• Anfon ffotograffau adref o'r plant yn bwyta bwydydd newydd | | |

## Darparu Bwyd a Diod – Gofynion Sylfaenol

Rhaid i'r gofynion hyn fod wedi'u bodloni er mwyn cyflawni meini prawf y wobr genedlaethol ar gyfer bwyd a diod

Bwriad y gofynion sylfaenol hyn yw adnabod y darpariaethau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar ddeiet plant er gwell, ac a fyddai'n amlwg iawn yn ystod ymweliad asesu. Fodd bynnag, byddai arfer gorau yn gweithio y tu hwnt i'r gofynion hyn i fynd i'r afael â'r holl ganlyniadau yng Nghanllawiau Arfer Gorau Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant Llywodraeth Cymru.

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| 5.1 | A yw dŵr yfed ffres ar gael yn rhydd i'r plant bob amser? | • Oerydd dŵr yn y fan a'r lle<br>• Poteli dŵr ag enw/llun y plentyn perthnasol arnynt<br>• Jygiau a chwpanau dŵr ar gael drwy'r dydd | | |
| 5.2 | Ai dŵr plaen yw'r unig ddiod rhwng prydau bwyd; neu laeth amser byrbrydau? | • Bwydlen a gwaith arsylwi<br>• Cynhyrchion llaeth a dewisiadau eraill: darparwch 3 dogn o gynnyrch llaeth a/neu ddewisiadau amgen | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.3 | A oes amrywiaeth o fyrbrydau maethlon ar gael yn unol ag argymhellion – sy'n gorfod cynnwys ffrwythau a/neu lysiau? | • Bwydlen a gwaith arsylwi<br>• Tystiolaeth o gymhwyso Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant, Canllawiau Arfer Gorau Llywodraeth Cymru<br>• Gofal Sesiynol: darparu dogn o ffrwythau a/neu lysiau fel rhan o bob byrbryd, darparu un dogn o garbohydradau startshlyd fel rhan o'r rhan fwyaf o fyrbrydau a darparu protein fel rhan o fyrbryd unwaith neu ddwywaith yr wythnos | | |
| 5.4 | A yw'r prif brydau canol dydd a/neu fin nos a ddarperir yn cynnwys ffrwythau a llysiau? | • Bwydlen a gwaith arsylwi<br>• Ffrwythau a Llysiau - Gofal dydd llawn: anelu at ddarparu 5 y dydd, Sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei gynnig ar draws yr wythnos | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.5 | A yw'r prif brydau canol dydd a/neu fin nos a ddarperir yn cynnwys cig, pysgod, neu ddewis protein arall addas (er enghraifft, wyau, codlysiau, dewis arall nad yw'n gynnyrch llaeth)? | • Bwydlen a gwaith arsylwi<br>• Tatws, bara, reis, pasta a charbohydradau startshlyd eraill: Gofal Dydd Llawn - Darparu dogn o garbohydradau startshlyd ym mhob pryd ac o leiaf un byrbryd y dyd<br>• Sicrhau amrywiaeth ar draws yr wythnos | | |
| 5.6 | A yw dewisiadau cig a physgod wedi'u prosesu o ansawdd uchel yn cael eu cyfyngu i ddim mwy na dwywaith yr wythnos? | • Bwydlen a gwaith arsylwi<br>• Ffa, codlysiau, pysgod, wyau, cig a phroteinau eraill: Gofal Dydd Llawn - darparu un dogn o ffa, codlysiau, pysgod, wyau, cig neu broteinau eraill amser cinio a the. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.7 | A ydych yn osgoi defnyddio cynnyrch sy’n cynnwys llawer o halen, megis cawl mewn pecynnau, ciwbiau stoc a sawsiau mewn pecynnau? | • Bwydlen a gwaith arsylwi | | |

# GWEITHGARWCH CORFFOROL / CHWARAE EGNÏOL

## Gweithgarwch Corfforol a Chwarae Egnïol

**Mae'r adran hon yn adlewyrchu pwysigrwydd hybu ystod eang o weithgareddau corfforol hygyrch a chyfleoedd hygyrch o ran chwarae egnïol i'r plant a'r staff, gan gynnwys mynediad i amgylcheddau a phrofiadau chwarae sy'n diwallu anghenion datblygu'r**
**plant. Caiff agweddau eraill ar chwarae eu cynnwys mewn adrannau eraill fel y bo'n briodol.**

Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

**D** **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau,  cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau.

**A** **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol.  Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i'r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae'r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion.

**N** **Naratif** – mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu.

| Arweinyddiaeth a Chyfathrebu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 1.1 | Pa bolisïau sydd gennych ar waith i arwain eich gwaith ar weithgarwch corfforol a chwarae? Sut maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd? | • Polisi gweithgarwch corfforol/chwarae egnïol (gyda phroses adolygu ar waith)<br>• Aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am weithgareddau a chwarae | | |
| 1.2 | Pa hyfforddiant/mentora gweithgarwch corfforol a chwarae gweithredol y mae staff wedi'i dderbyn a sut mae hyn wedi dylanwadu ar arfer? | • Hyfforddiant gweithiwyr chwarae (NVQ)<br>• Hyfforddiant Llythrennedd Corfforol<br>• Hyfforddiant chwarae neu symud<br>• Hyfforddiant chwarae awyr agored (er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru neu Rwydweithiau Chwarae)<br>• Hyfforddiant chwarae neu weithgaredd corfforol lleol<br>• Adnoddau Chwarae i Ddysgu<br>• Tystiolaeth o arfer | | |

## Cynllunio a Chyflawni

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Pa weithgareddau a phrofiadau ydych yn eu darparu sy'n annog plant i chwarae a bod yn gorfforol egnïol bob dydd? | • Cyfleoedd dyddiol i gynnwys ac archwilio gweithgarwch corfforol a chwarae o fewn yr amserlen<br>• Dewis o chwarae a gweithgareddau dan arweiniad y plentyn<br>• Defnydd o 'Chwarae i Ddysgu' neu adnoddau gweithgarwch corfforol a chwarae eraill<br>• Sesiynau ioga<br>• Sesiynau dawns dyddiol neu ganeuon gweithrediadau dyddiol<br>• Hyrwyddo 180 munud y dydd o weithgarwch corfforol yn unol â chanllawiau cenedlaethol<br>• Darparu ardaloedd chwarae awyr agored, offer chwarae antur, wal ddringo, llithren, siglenni<br>• Beiciau a sgwteri<br>Sesiynau chwaraeon a gweithgareddau eraill neu sesiynau blasu i blant | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2 | Sut yr ydych yn cynllunio ar gyfer chwarae egnïol rheolaidd dan do ac yn yr awyr agored i fabanod? | • Cyfleoedd i fabanod rolio, bod ar eu boliau, estyn allan am deganau<br>• Meinciau ar gyfer cerdded i wella cydbwysedd, cyfleoedd i ddringo<br>• Tylino babanod | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3 | Pa fentrau lleol/cenedlaethol ydych yn ymwneud â nhw sy'n hyrwyddo Gweithgarwch corfforol a chwarae egnïol i blant neu rieni/gofalwyr? | • Cymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol (er enghraifft, Toddle gan Barnardo's, digwyddiadau Sefydliad Prydeinig y Galon, Plant mewn Angen, Diwrnod Trwyn Coch, Sports Relief)<br>• Diwrnod Bîp Bîp neu fentrau eraill i hybu teithio llesol diogel<br>• Chwarae i Ddysgu<br>• Gweithgareddau sy’n gysylltiedig â digwyddiadau (er enghraifft, y Gemau Olympaidd, Gemau’r Gymanwlad, Pencampwriaeth y Chwe Gwlad)<br>• Ymgysylltu â chanolfannau hamdden lleol<br>• Cymryd rhan mewn mentrau cenedlaethol a arweinir gan bartneriaid (er enghraifft Chwarae Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Natur) Dosbarth awyr agored / wythnos ddysgu | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.4 | Sut yr ydych yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu darparu/bod negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi mewn perthynas â gweithgarwch corfforol a gweithgareddau chwarae? | • Darparu dillad ac esgidiau addas ar gyfer staff a phlant<br>• Ymddygiad model rôl staff (er enghraifft, cerdded i'r gwaith, cymryd rhan mewn gemau a dawnsio)<br>• Cerddwch lle bo modd i fannau o ddiddordeb<br>• Mae lleoliad yn rhoi cyfle i blant fodloni canllawiau gweithgarwch corfforol trwy eu darpariaeth diwrnod llawn (er enghraifft trwy chwarae egnïol a gweithgareddau eraill)<br>• Mae rhaglen sefydlu, hyfforddiant a gwerthusiadau/arsylwadau staff yn cynnwys ffocws ar weithgarwch corfforol a chwarae egnïol | | |
| 2.5 | Sut yr ydych yn rheoli'r cydbwysedd rhwng yr angen i gynnig risg a'r angen i gadw plant yn ddiogel rhag niwed yn ystod gweithgarwch corfforol a gweithgareddau chwarae? | • Asesiadau risg a phrosesau rheoli risg ar waith<br>• Cyfleoedd i blant gymryd risgiau cyfrifedig, asesu risg a datblygu eu sgiliau asesu risg yn unol â llwybrau datblygiadol chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar | | |

| Ethos a’r Amgylchedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 3.1 | Sut yr ydych yn sicrhau bod dŵr ar gael yn rhwydd a bod yfed yn cael ei hyrwyddo'n weithredol yn ystod ac ar ôl gweithgaredd? | • Mynediad rhydd i ddŵr bob amser (dan do ac yn yr awyr agored)<br>• Mae gan y plant eu poteli/cwpan dŵr eu hunain | | |
| 3.2 | Sut yr ydych yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo ar ôl chwarae yn yr awyr agored ac ar ôl gweithgareddau, yn enwedig chwarae â dŵr a thywod? | • Mae trefn ddyddiol yn cynnwys golchi dwylo ar ôl sesiynau chwarae | | |
| 3.3 | Pa offer chwarae ydych yn ei ddefnyddio sydd wedi'i wneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu neu eu hailddefnyddio? | • Creu modelau gan ddefnyddio sothach<br>• Teiars, boncyffion, cyrsiau rhwystrau<br>• Chwarae rhannau rhydd (Chwarae Cymru) | | |

| Cynnwys Teuluoedd a’r Gymuned | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sut yr ydych yn ymgysylltu ag unigolion, asiantaethau allanol, busnesau a/neu aelodau’r gymuned sy'n cefnogi gweithgarwch corfforol a chwarae egnïol? | • Holiaduron i rieni/gofalwyr yn gofyn am gymorth perthnasol<br>• Chwarae Cymru, Chwaraeon Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Genedlaethol, Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru<br>• Ymweliadau cymunedol gyda phlant (er enghraifft i’r ganolfan hamdden, maes chwarae lleol neu gae chwaraeon neu gan fodelau rôl gweithgarwch corfforol)<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru, athrawon ymgynghorol, awdurdod lleol, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, sefydliadau ymbarél<br>• Mae hyfforddwyr neu glybiau chwaraeon lleol a hyfforddwyr ffitrwydd yn cyflwyno sesiynau gyda phlant (er enghraifft dawns, ioga, pêl-droed)<br>• Sesiynau iaith a chwarae | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2 | Pa wybodaeth ydych yn ei darparu i rieni/gofalwyr am bwysigrwydd gweithgarwch corfforol a chwarae egnïol iddyn nhw eu hunain a'u plant? | • Mae cylchlythyrau, gwefan, cyfryngau cymdeithasol a/neu arddangosiadau yn cynnwys gwybodaeth (er enghraifft, gweithgareddau sydd ar gael yn lleol a gwybodaeth am fanteision gweithgarwch corfforol)<br>• Rhannu adnoddau (er Phob Plentyn Cymru) Parent Information Resources \| Every Child (everychildwales.co.uk)<br>• Nosweithiau rhieni/gofalwyr neu sesiynau gyda siaradwyr neu weithgareddau<br>• Gofyn i rieni/gofalwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau neu fentrau gwirfoddol gyda'u plant<br>- Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru (llyw.cymru) | | |

# LLES EMOSIYNOL A MEDDYLIOL GAN GYNNWYS PERTHNASOEDD

## Lles Emosiynol a Meddyliol gan gynnwys Perthnasoedd

**Mae'r adran hon yn adlewyrchu ethos y lleoliad, a ddylai annog parch gan bawb at ei gilydd a hybu pob agwedd ar les meddyliol ac emosiynol pawb sy'n gweithio yn y lleoliad. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu perthnasoedd cadarnhaol, ac felly mae'n ymdrin â rhai agweddau ar ddatblygiad personol.**

Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

| | |
|---|---|
| **D** | **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau. |
| **A** | **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i'r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae'r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion. |
| **N** | **Naratif** – mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu. |

| Arweinyddiaeth a Chyfathrebu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 1.1 | Sut ydych chi'n gweithredu'r fframwaith Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (Canllawiau Statudol ar gyfer lleoliadau a gynhelir)? | • Rhoi ystyriaeth ddyledus i Fframwaith ar sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol: https://www.llyw.cymru/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol<br>• Ymgysylltu â staff i ddeall effaith llesiant meddyliol cysylltiedig â gwaith<br>• Ymgysylltu â rhieni i archwilio meysydd i'w gwella | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2 | Pa bolisïau a chynlluniau sydd ar waith i arwain eich gwaith ar les emosiynol a meddyliol, gan gynnwys pherthnasoedd, ac ymdrin â materion sensitif? Sut maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd? | Gallai polisïau perthnasol gynnwys:<br>• Cynllun datblygu wedi'i nodi fel rhan o'r adolygiad o lesiant emosiynol a meddyliol<br>• Polisi ymddygiad a gwrthfwlio<br>• Polisi lles emosiynol a meddyliol ar gyfer staff a/neu blant<br>• Polisi cwyno<br>• Polisi diogelu<br>• Polisi neu gynllun cydraddoldeb<br>• Polisi ynghylch rhieni sydd wedi gwahanu<br>• Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU)<br>• Mae polisïau'n cael eu hategu gan weithgareddau sy'n ymwneud â lles emosiynol a meddyliol sydd wedi'u cynnwys yn y lleoliad gyda blaenoriaethau wedi'u nodi a'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r lleoliad<br>• Tystiolaeth bod cynlluniau gweithredu a pholisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.3 | Sut yr ydych yn sicrhau dull cyson o reoli ymddygiad? | • Aelod o staff penodol yn gyfrifol am reoli materion sy'n ymwneud ag ymddygiad<br>• Canllawiau arfer da i staff a rhieni/gofalwyr<br>• Mae rhaglen sefydlu, polisïau a hyfforddiant staff yn cynnwys hyrwyddo rheoli ymddygiad yn gadarnhaol<br>• ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol a (CDU) Cynlluniau Datblygu Unigol<br>• Cynlluniau gwobrwyo plant, sy'n cael eu defnyddio'n gyson<br>• System gweithiwr allweddol<br>• Hyrwyddo rheolau cadarnhaol a charedigrwydd o amgylch y lleoliad<br>• Rhennir polisïau ac ymagweddau ymddygiad â rhieni/gofalwyr i alluogi partneriaeth rhwng y cartref a'r lleoliad | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.4 | Pa hyfforddiant ynghylch lles emosiynol a meddyliol gan gynnwys hyfforddiant perthnasoedd y mae staff wedi'i dderbyn a sut mae hyn wedi dylanwadu ar arfer? | • Theori ymlyniad<br>• Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl<br>• Strategaethau ymddygiad cadarnhaol<br>• Arferion adferol<br>• Galar a cholled<br>• Hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Dulliau sy'n Ystyriol o Drawma<br>• Cwsg<br>• Gwrth-fwlio (er enghraifft, Kind Hands Kind Words)<br>• Tystiolaeth o arfer | | |
| **Cynllunio a Chyflawni** | | | | |
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 2.1 | Pa weithgareddau a phrofiadau yn cael eu darparu sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol y plant, eu sgiliau cyfathrebu a'u gwybodaeth am amrywiaeth? | • Gwaith unigol neu grŵp bach (er enghraifft amser meithrin/cylch)<br>• Gweithgareddau i hybu ymdeimlad plentyn o berthyn<br>• Cyfleoedd i bob plentyn leisio ei farn<br>• Hybu ymlyniad cynnar<br>• Darparu trefn sy'n galluogi plant i deimlo'n ddiogel | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Mae plant yn ymwybodol o ymarferydd gofal plant allweddol ar gyfer cymorth emosiynol (er enghraifft gweithiwr allweddol penodol)<br>• Dathliadau tymhorol/diwylliannol<br>• Defnyddio adnoddau amlddiwylliannol (er enghraifft teganau, chwarae rôl, llyfrau stori)<br>• Defnyddio adnoddau megis cardiau/pypedau teimladau a doliau empathi<br>• Cyfle i drafod cariad teuluol a chyfeillgarwch<br>• Cyfleoedd i fod yn greadigol gyda'r celfyddydau a cherddoriaeth a chrefft<br>• Hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diwylliannol a chelfyddydol (er enghraifft garddio/tyfu, coginio, gwneud crefft a choginio)<br>• Cyfranogiad cymunedol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2 | Sut ydych chi'n cynllunio, paratoi a chefnogi plant mewn modd cadarnhaol wrth iddynt bontio i'r lleoliad ac oddi yno (i'r ysgol neu leoliadau amgen)? | • Cynllun pontio ar waith ar gyfer plant sy'n ymgartrefu ac yn symud ymlaen o'r lleoliad<br>• Cyfleoedd ar gyfer ymweliadau pontio â lleoliadau eraill<br>• Cyfleoedd i drafod pontio gyda theuluoedd | | |
| 2.3 | Sut yr ydych yn rhoi cyfle i fabanod a phlant dan ddwy oed ryngweithio ag oedolyn cyson yn aml ac am gyfnodau hir yn ystod y dydd? | • Ymarferydd gofal plant – system gweithiwr allweddol<br>• Adolygiad o'r broses ymgartrefu<br>• Trefn arferol i alluogi babanod i ryngweithio â'r ymarferydd gofal plant drwy gydol y dydd – amser bwyd, amser ar eu boliau | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.4 | Pa fentrau lleol/cenedlaethol yr ydych yn rhan ohonynt i hybu hunan-barch plant neu rieni/gofalwyr? | • Diwrnodau/wythnosau ymwybyddiaeth iechyd (er enghraifft, wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl)<br>• Tylino babi<br>• Grwpiau meithrin rhieni/gofalwyr<br>• Sesiynau iaith a chwarae<br>• Dull Solihull<br>• Dysgu yn yr Awyr Agored<br>• Amser Stori (lyfrgelloedd)<br>• Cymryd rhan mewn mentrau cenedlaethol sy'n hybu cyfranogiad (er enghraifft Big Toddle Barnardo's, Taith Gerdded Fawr Bywyd Gwyllt yr Ymddiriedolaeth Natur, Gwylio Adar yr Ardd yr RSPB, Plant Mewn Angen, Timmy Time, Pecyn Sport Relief) | | |
| 2.5 | Sut yr ydych yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad lles emosiynol a meddyliol yn y lleoliad? | • Hyfforddiant<br>• Holiaduron iechyd a lles y staff<br>• Gwefan y GIG<br>• Partneriaethau lleol | | |

## Ethos a’r Amgylchedd

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Sut yr ydych yn creu amgylchedd meithrin pleserus, diogel, cymdeithasol ac ymatebol, a sut yr ydych yn cynnwys y plant? | • Cyfarfodydd staff i drafod iechyd a lles emosiynol a meddyliol<br>• Mae gan bob plentyn ei le ei hun i gadw cotiau ac eiddo i feithrin ymdeimlad o berthyn<br>• Y plant yn teimlo perchnogaeth ar rannau o'r lleoliad<br>• Trefn ddyddiol arferol sy'n hybu diogelwch ac annibyniaeth<br>• Hyrwyddo rheolau cadarnhaol y mae'r plant yn cyfrannu atynt ac yn eu deall<br>• Trefniadau pontio<br>• Gwaith ac arddangosfeydd y plant ar uchder sy'n addas i blant (lle bo modd)<br>• Amgylchedd digynnwrf (er enghraifft, defnyddir cerddoriaeth a lliwiau niwtral)<br>• Ystod o fannau ac amgylcheddau ffisegol sy'n cefnogi lles emosiynol y plant a'r staff<br>• Hawliau a llais y plant yn cael blaenoriaeth<br>• Chwarae dan arweiniad plant | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.2 | Sut yr ydych yn darparu cyfleoedd i'r plant hybu/annog eu hunanhyder, eu hunan-barch a'u lles eu hunain a hyder, hunan-barch a lles pobl eraill? | • Gwaith cynllunio a ysgogir gan y plant<br>• Pob plentyn yn cael clod; system wobrwyo ar waith (nad yw'n seiliedig ar fwyd)<br>• Amser Meithrin a/neu gwaith unigol neu grŵp bach lle caiff plant gyfle i siarad a gwrando<br>• Rolau a chyfrifoldebau'r plant yn glir (er enghraifft, yn cael tasg 'arbennig' am y dydd)<br>• Cyfleoedd i blant gyflwyno a derbyn canmoliaeth gan gyfoedion<br>• Cyfleoedd i blant arddangos/rhannu eu gwaith eu hunain<br>• Gweithgareddau sy'n hybu annibyniaeth (er enghraifft mae gan y plant eu pegiau eu hunain, maent yn eu helpu eu hunain i fyrbrydau a diodydd, maent yn chwythu eu trwyn eu hunain ac maent yn golchi eu dwylo, mynd i'r toiled) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod yr holl staff ac ymwelwyr yn cefnogi polisïau ac arferion y lleoliad cyn-ysgol? | • Cyfathrebu rheolaidd â rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr rheolaidd<br>• Y polisïau ar gael ar y wefan neu mewn ffolder er mwyn i rieni/gofalwyr allu eu gweld<br>• Hyrwyddo polisi'r wythnos/mis<br>• Rheolau’r lleoliad wedi'u harddangos<br>• Hysbysfwrdd i rieni/gofalwyr ymwelwyr a’r staff<br>• Rhestr wirio i ymwelwyr ei hadolygu a'i llofnodi wrth gyrraedd | | |

| Cynnwys Teuluoedd a’r Gymuned | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 4.1 | Sut yr ydych yn ymgysylltu ag unigolion, asiantaethau allanol, busnesau a/neu aelodau’r gymuned i gynorthwyo plant a rhieni/gofalwyr sydd â phroblemau’n ymwneud ag iechyd a lles emosiynol a meddyliol gan gynnwys perthnasoedd? | • Rheolaeth gadarnhaol o ymddygiad anodd (gan gynnwys mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr)<br>• Gofynnir am gymorth a chyngor gan seicolegydd addysg, ymwelwyr iechyd, addysg y blynyddoedd cynnar ac asiantaethau partneriaeth eraill fel y bo'n briodol<br>• Cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth (er enghraifft, tîm o amgylch y plentyn/teulu)<br>• Gwybodaeth a chyfeirio drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol<br>• Holiaduron rhieni/gofalwyr i ddeall eu profiad | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2 | Pa wybodaeth ydych chi'n ei darparu i rieni / gofalwyr am bwysigrwydd iechyd meddwl ac emosiynol da, llesiant a pherthnasoedd ar eu cyfer nhw eu hunain a'u plant? Sut mae hyn yn cael ei gyfleu? | • Cylchlythyrau, gwefan, gwefannau cyfryngau cymdeithasol a/neu arddangosfeydd yn cynnwys gwybodaeth (er enghraifft y polisi ymddygiad, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl)<br>• Dull cyson o strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn cael ei drafod â'r rhieni/gofalwyr<br>• Rhoddir taflenni cofnodion dyddiol/dyddiaduron/apiau i rieni/gofalwyr<br>• Gwybodaeth am iechyd a lles emosiynol a meddyliol yn cael ei chynnwys mewn cyfathrebu ac ar hysbysfyrddau<br>• Hyrwyddo neu ddarparu rhaglenni magu plant<br>• Hyrwyddo adnoddau neu fentrau cenedlaethol (er enghraifft 'Magu Plant. Rhowch amser iddo', 'Naw Mis a Mwy')<br>• Hyrwyddo a darparu gwybodaeth am ffactorau sy'n cefnogi iechyd emosiynol a meddyliol (er enghraifft cwsg, cysylltiad cymunedol, gweithgaredd corfforol)<br>• Hyrwyddo a chyfeirio at rwydweithiau cymorth ffurfiol neu anffurfiol | | |

# YR AMGYLCHEDD

## Yr Amgylchedd

**Mae'r adran hon yn adlewyrchu'r arfer o hybu amgylchedd diogel ac ysgogol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y bobl sydd ynddo, gan roi pwys ar ofalu am yr amgylchedd sydd y tu mewn i'r lleoliad a'r tu allan iddo.**

Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

| | |
|---|---|
| **D** | **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau. |
| **A** | **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i'r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae'r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion/llawr. |
| **N** | **Naratif** – mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu. |

| Arweinyddiaeth a Chyfathrebu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 1.1 | Pa bolisïau neu gynlluniau gweithredu sydd gennych ar waith i leihau eich effaith ar yr amgylchedd? Sut maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd? | • Polisi’r amgylchedd/polisi eco sy’n cynnwys sicrhau bod y plant yn cymryd rhan yn y broses o leihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu ac atgyweirio cynnyrch a pharchu’r amgylchedd<br>• Adolygiad amgylcheddol/cynllun gweithredu eco<br>• Cod yr amgylchedd / cod eco<br>• Aelod dynodedig o staff â chyfrifoldeb am gamau gweithredu’n ymwneud â’r amgylchedd | | |
| 1.2 | Pa hyfforddiant ynghylch materion amgylcheddol ac ymwybyddiaeth fyd-eang y mae’r staff wedi’i gael, a sut y mae hynny wedi dylanwadu ar arferion? | • Hyfforddiant garddio<br>• Hyfforddiant dysgu awyr agored (er enghraifft, hyfforddiant ysgolion coedwig, hyfforddiant ysgolion traeth)<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br>• Ymweliad/sgwrs gan y cyngor sir lleol<br>• Cadwch Gymru’n Daclus<br>• Tystiolaeth o arfer | | |

## Cynllunio a Chyflawni

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Pa weithgareddau a phrofiadau dilys yr ydych yn eu darparu sy’n annog ac yn cefnogi'r plant i wneud penderfyniadau ynghylch lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd? | • Gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar leihau gwastraff (er enghraifft ailddefnyddio, ailgylchu, compostio, arbed ynni a dŵr) a gofalu am yr amgylchedd (er enghraifft teithio llesol, cynyddu ymwybyddiaeth fyd-eang)<br>• Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ofalu am natur (er enghraifft bwydo adar, helfa bwystfilod bach/gwesty chwilod)<br>• Cegin fwd<br>• Lleihau gwastraff bwyd<br>• Gwneud marciau yn yr awyr agored<br>• Cymhellion i wobrwyo ymwneud plant â’r amgylchedd (er enghraifft gwagio gwastraff bwyd i mewn i gadi)<br>• Celf amgylcheddol<br>• Canu caneuon eco, darllen straeon eco neu chwarae rôl<br>• Cysylltiad â dysgu o fewn y Cwricwlwm i Gymru (Dinasyddion moesegol, gwybodus) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2 | Pa fentrau lleol/cenedlaethol ydych yn ymwneud â nhw sy'n hyrwyddo materion amgylcheddol i blant a/neu rieni/gofalwyr? | • Gweithgareddau/mentrau sy'n ymgysylltu â bywyd gwyllt (er enghraifft Ymddiriedolaeth Natur – Taith Gerdded Wyllt Fawr, 30 Diwrnod Gwyllt)<br>• Gweithgareddau/mentrau sy'n ymgysylltu â'r amgylchedd lleol (er enghraifft Cadwch Gymru'n Daclus, sesiynau codi sbwriel cymunedol, wythnos arddio genedlaethol)<br>• Gweithgareddau/mentrau dysgu awyr agored (er enghraifft wythnos dysgu awyr agored ysgol goedwig, ysgolion traeth)<br>• Gweithgareddau sy'n hybu ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol (er enghraifft, Gorffennaf di-blastig)<br>• Cymryd rhan mewn digwyddiadau/ carnifalau a gwyliau lleol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3 | Sut yr ydych yn monitro gwelliannau ac yn mesur effaith? | • Lleihau gwastraff yn y lleoliad (er enghraifft, gwastraff bwyd/neu ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu)<br>• Arddangosfeydd gweledol o'r arbedion a wneir ar sail y broses o leihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu ac atgyweirio cynnyrch a pharchu'r amgylchedd<br>• Trafodaethau â phlant a staff i adolygu dealltwriaeth<br>• Arsylwadi ymddygiad<br>• Adborth gan rieni/gofalwyr<br>• Lluniau cyn ac ar ôl newidiadau i ardal (er enghraifft, ar ôl cael biniau ailgylchu ar wahân) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.4 | Sut yr ydych yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu darparu / bod negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi mewn perthynas â materion amgylcheddol? | • Staff yn modelu ymddygiad cadarnhaol (er enghraifft ailgylchu, compostio, diffodd goleuadau)<br>• Arferion y lleoliad sy'n gyson â pholisi’r amgylchedd (er enghraifft ynghylch diffodd goleuadau, ailddefnyddio papur)<br>• Mae ymarfer yn ategu’r dysgu (er enghraifft goleuadau wedi’u diffodd, papur wedi’i ailgylchu, teithio llesol)<br>• Cyfathrebu electronig (er enghraifft defnyddio e-bost lle bo’n briodol)<br>• Ymwybyddiaeth staff, rhieni/gofalwyr a phlant o gynaliadwyedd | | |
| 2.5 | Sut yr ydych yn ymateb i faterion amgylcheddol sy’n codi’n lleol yn eich lleoliad? | • Hyblygrwydd mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio yn seiliedig ar asesiad risg (er enghraifft, y tywydd yn newid/llifogydd, sbwriel yn cael ei daflu i eiddo/baeddu anifeiliaid) | | |

| Ethos a’r Amgylchedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Sut yr ydych yn creu amgylchedd sy'n groesawgar, yn gyfeillgar, yn ddymunol, yn ddiogel ac yn gymdeithasol i rieni/gofalwyr a phlant, a sut yr ydych yn cynnwys y plant? | • Holiaduron/casglu barn rhieni/gofalwyr am yr amgylchedd<br>• Blwch awgrymiadau/atebion cyfryngau cymdeithasol<br>• Cyfarfodydd staff i drafod gwella amgylchedd y lleoliad<br>• Gwybodaeth ac arwyddion clir<br>• Y lleoliad wedi'i rannu'n barthau neu'n ardaloedd<br>• Y tymheredd y tu mewn i'r lleoliad yn cael ei gynnal ar y lefel gywir<br>• Amgylchedd digynnwrf, heb annibendod<br>• Arddangosfeydd ar uchder sy'n addas i blant<br>• Arddangosiadau/hysbysfwrdd i rieni/gofalwyr<br>• Pegiau ar uchder sy'n addas i blant, a lluniau wrth eu hymyl<br>• Datblygu gerddi/potiu plannu a/neu blannu ffrwythau a llysiau<br>• Dull chwilfrydedd<br>• Dodrefn a chyfarpar chwarae sy'n briodol i oedran y plant | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Trefnu teithiau a gweithgareddau awyr agored rheolaidd<br>• Ardaloedd eistedd, chwarae a dringo yn yr awyr agored<br>• Dillad priodol ar gyfer gweithgareddau awyr agored (er enghraifft esgidiau glaw, siwtiau, glaw, menig, hetiau haul) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.2 | Sut yr ydych yn annog pobl yn weithredol i leihau gwastraff a sbwriel yn eich lleoliad? | • Prynu mewn llwyth/proses arllwys nwyddau i becynnau newydd<br>• Defnyddio deunydd pecynnu y mae modd ei ailgylchu/compostio a bagiau y mae modd eu hailddefnyddio<br>• Cylchlythyrau yn cael eu hanfon drwy e-bost neu ddewis rhithwir arall<br>• Peidio â defnyddio platiau a chwpanau a gaiff eu taflu ar ôl iddynt gael eu defnyddio<br>• Mae gwastraff bwyd yn cael ei gompostio/defnyddio cadi bwyd<br>• Papur a chardbord yn cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu<br>• Plastig, metel a gwydr yn cael eu hailgylchu<br>• Annog pobl i ddefnyddio pecynnau bwyd heb ddeunydd pecynnu<br>• Defnyddio siop ffrwythau a llysiau lleol a chyflenwyr lleol eraill | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.3 | Sut yr ydych yn cymryd camau i annog cymuned y lleoliad i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy? | • Cerdded i fannau lleol o ddiddordeb yn hytrach na defnyddio bws mini<br>• Cyfeirio at amserlen bws/trên yn y pecyn croeso neu mewn arddangosfeydd<br>• Hyrwyddo teithio llesol a chymryd rhan mewn mentrau teithio llesol<br>• Rhesel feiciau/sgwteri neu ardal storio cadeiriau gwrthio/sgwteri<br>• Annog staff i rannu ceir | | |

## Cynnwys Teuluoedd a’r Gymuned

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sut yr ydych yn ymgysylltu ag unigolion, asiantaethau allanol, busnesau a/neu aelodau'r gymuned er mwyn cefnogi gweithgareddau amgylcheddol? | • E-bost/cylchlythyr/post cyfryngau cymdeithasol i rieni/gofalwyr yn gofyn am gyfranogiad a chymorth (er enghraifft, cymryd rhan mewn digwyddiadau neu roi hen botiau a sosbenni ar gyfer cegin fwd)<br>• Ymweld â lleoliadau cymunedol (er enghraifft canolfannau garddio, gweithfeydd rheoli gwastraff ac ailgylchu a busnesau lleol)<br>• Ymweliadau neu weithdai gan sefydliadau lleol (er enghraifft, grwpiau amgylcheddol lleol/cymdeithasau rhandiroedd)<br>• Cymorth dysgu awyr agored (er enghraifft, ysgolion traeth ac ysgol goedwig)<br>• Adnoddau a mentrau sefydliadau cenedlaethol (er enghraifft gwefan/cylchlythyr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar)<br>• Ymgysylltu â mentrau a chynlluniau awdurdodau lleol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2 | Pa wybodaeth yr ydych yn ei darparu i rieni/gofalwyr am bwysigrwydd mentrau amgylcheddol yn y lleoliad? | • Cylchlythyrau, gwefan, cyfryngau cymdeithasol a/neu arddangosfeydd yn cynnwys gwybodaeth (er enghraifft am ailgylchu, garddio, y polisi/cod eco)<br>• Hyrwyddir adnoddau cenedlaethol i rieni drwy sianeli cyfathrebu'r lleoliad (er enghraifft CNC, y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Cadwch Gymru'n Daclus<br>• Diwrnod garddio agored gyda'r rhieni/gofalwyr a'r plant<br>• Rhieni/gofalwyr yn mynd gyda'r plant ar ymweliadau (er enghraifft ymweliadau â chanolfannau garddio, ffermydd a gwarchodfeydd yr RSPB) | | |
| 4.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod holl aelodau cymuned y lleoliad yn cydymffurfio â'ch polisi di-fwg (noder y dylai'r polisi hwn hefyd gynnwys defnyddio e-sigaréts)? | • Arwyddion<br>• Polisi<br>• Hysbysfwrdd gwybodaeth,<br>• Cylchlythyrau, gwefan, cyfryngau cymdeithasol<br>• Ymwybyddiaeth o geir/cartrefi di-fwg<br>• Hyrwyddo Helpa Fi i Stopio<br>• Hyrwyddo meysydd chwarae di-fwg | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Diwrnod garddio agored gyda’r rhieni/gofalwyr a’r plant<br>• Rhieni/gofalwyr yn mynd gyda’r plant ar ymweliadau (er enghraifft ymweliadau â chanolfannau garddio, ffermydd a safleoedd yr RSPB) | | |
| 4.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod pob aelod o gymuned y lleoliad yn cydymffurfio â pholisi o ran amgylcheddau di-fwg, gan gynnwys e-sigaréts? | • Arwyddion<br>• Polisi<br>• Hysbysfwrdd gwybodaeth, cylchlythyrau, gwefan<br>• Ymwybyddiaeth o geir/cartrefi di-fwg<br>• Hyrwyddo Dim Smygu Cymru<br>• Meysydd chwarae di-fwg | | |

# DIOGELWCH

## Diogelwch

**Mae'r adran hon yn adlewyrchu dull rhagweithiol ac adweithiol o ymdrin â phob agwedd ar ddiogelwch, gan gynnwys gwaith ar bob sylwedd. Dylid cydnabod y gallai'r defnydd y mae rhieni a staff yn ei wneud o alcohol a sylweddau anghyfreithlon effeithio ar ddiogelwch y plant yn y lleoliad. Caiff ysmygu a defnyddio e-sigaréts ei gynnwys yn yr adran hon hefyd, ond dylid ei ystyried nid yn unig yn fater sy'n ymwneud â diogelwch ond yn fater sy'n ymwneud ag iechyd hefyd.**

Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

| | |
|---|---|
| **D** | **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau. |
| **A** | **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i'r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae'r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion/llawr. |
| **N** | **Naratif** – mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu. |

| Arweinyddiaeth a Chyfathrebu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Pa bolisïau, gweithdrefnau a/neu asesiadau risg sydd ar gael, sy’n cael eu hadolygu a’u diweddaru’n rheolaidd, ac a oes gennych unigolyn a enwyd sy’n gyfrifol am arwain eich gwaith ym mhob agwedd ar ddiogelwch? | Y polisïau ategol canlynol yn ogystal â pholisïau statudol:<br>• Diogelwch yn yr haul<br>• Ffonau symudol a'r rhyngrwyd/ E-ddiogelwch<br>• Cymorth cyntaf<br>• Rhoi meddyginiaeth<br>• Diogelwch ar y ffyrdd<br>• Gwibdeithiau<br>• Bwyd, gan gynnwys diogelwch rhag alergenau<br>• Diogelwch ar yr iard chwarae<br>• Pobl sy’n gweithio ar eu pen eu hunain<br>• Ysmygu, e-sigaréts, alcohol a defnyddio neu gamddefnyddio sylweddau eraill (gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ddi-fwg 2021 a’i hyrwyddo)<br>• Imiwneiddio, gan gynnwys rheoli achosion o salwch<br>• Gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thystlythyrau ar gyfer y staff<br>• Asesiad risg y lleoliad | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2 | Sut yr ydych yn monitro ac yn cofnodi gweithdrefnau? | • Logiau e-ddiogelwch<br>• Cofrestr salwch<br>• Cofnod o achosion yr adroddwyd amdanynt i'r tîm Diogelu Iechyd (gan gynnwys canlyniad/camau gweithredu)<br>• Llyfr ymwelwyr<br>• Llyfr damweiniau a digwyddiadau, sy'n cynnwys rhoi gwybod i rieni/gofalwyr<br>• Y llyfr damweiniau'n cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn chwilio am batrymau a lleihau risgiau<br>• Ffurflenni rhoi meddyginiaeth a ffurflenni caniatâd<br>• Ffurflen ganiatâd ynghylch ffotograffau/cyhoeddusrwydd<br>• Asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd<br>• Arolygiadau iechyd a diogelwch rheolaidd<br>• Adroddiadau gan sefydliadau eraill sy'n cyfeirio at ddiogelwch<br>• Cofnodion cyfarfodydd staff perthnasol sy'n trafod diogelwch<br>• Gweithdrefnau i sicrhau bod y blwch cymorth cyntaf yn cael ei wirio a bod y stoc o fewn y dyddiad defnyddio olaf<br>• Cofnodion tymheredd yr oergell<br>• Siart/gwybodaeth am alergenau<br>• Rhestr wirio i'w defnyddio wrth archwilio'r ardal awyr agored | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Amserlenni glanhau<br>• Mae gweithdrefnau diogelwch tân a gadael yr adeilad mewn argyfwng ar waith ac mae tystiolaeth o ymarferion | | |
| 1.3 | Pa hyfforddiant ynghylch diogelwch y mae'r staff wedi'i gael, a sut y mae hynny wedi dylanwadu ar arferion? | • Rhestr o'r hyfforddiant diweddar sy'n berthnasol i'r polisïau a nodir yn 1.1<br>• Sesiynau sefydlu staff yn cynnwys diogelwch<br>• Tystiolaeth o arfer | | |
| 1.4 | Sut yr ydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf yn bresennol ar y safle i ofalu am fabanod a phlant ifanc? | • Tystiolaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf<br>• Rotâu'r staff yn sicrhau bod digon o staff yn bresennol sy'n gymwys i roi cymorth cyntaf<br>• Rolau staff dynodedig clir - wedi'u harddangos ar hysbysfwrdd | | |
| 1.5 | Sut yr ydych yn sicrhau eich bod yn cael caniatâd ysgrifenedig gan riant/ gofalwr ynghylch rhoi cyngor neu driniaeth feddygol frys? | • Pecyn croeso – y ffurflen gais/caniatâd adeg derbyn plentyn i'r lleoliad yn cynnwys caniatâd i roi triniaeth feddygol frys | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.6 | Sut yr ydych yn ymateb i statws imiwneiddio anghyflawn plant a staff? | • Cofnod imiwneiddio ar gael ar gyfer rheoli achosion<br>• Gwybodaeth gyffredinol am imiwneiddio mewn cylchlythyrau /ar hysbysfyrddau/apiau<br>• Cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth credadwy | | |
| 1.7 | Sut yr ydych yn sicrhau bod y nwyddau glanhau a'r cemegolion a ddefnyddir ar y safle o'r safon gywir ac yn cael eu defnyddio a'u storio'n gywir? | • Mae asiantau glanhau yn bodloni Safonau Prydeinig<br>• Storio nwyddau mewn mannau nad oes modd i'r plant fynd iddynt<br>• Ffeil y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd<br>• Y gweithdrefnau glanhau'n cyfeirio at storio a defnyddio nwyddau'n ddiogel<br>• Polisi iechyd a diogelwch<br>• Asesiadau risg | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.8 | Sut y caiff canllawiau ynghylch hylendid a storio pecynnau bwyd yn ddiogel eu rhoi i rieni/gofalwyr/staff? | • Gwybodaeth wedi'i chynnwys mewn pecynnau croeso, ar y wefan neu drwy gylchlythyrau<br>• Tynnu sylw at wybodaeth drwy hysbysfyrddau | | |
| **Cynllunio a Chyflawni** | | | | |
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Pa weithgareddau a phrofiadau yr ydych yn eu darparu, sy'n annog y plant i gadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach, lleihau damweiniau, eu parchu eu hunain a pharchu pobl eraill a'r amgylchedd? | • Golchi dwylo yn rheolaidd<br>• Gosod rheolau<br>• Gweithdrefnau cerdded<br>• Ymarfer y weithdrefn ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng<br>• 'Pobl sy'n ein helpu'<br>• Diogelwch yn y cartref (meddyginiaethau / nwyddau ar gyfer y cartref / sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon)<br>• Sgiliau diogelwch ar y ffyrdd<br>• Gweithgareddau diogelwch yn yr haul<br>• Corff iach<br>• Cyffwrdd diogel<br>• Chwarae rôl, straeon<br>• Amser tacluso | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2 | Pa fentrau lleol/cenedlaethol yr ydych yn rhan ohonynt sy'n hybu diogelwch plant neu rieni/gofalwyr? | • Wythnos Diogelwch Plant<br>• Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd<br>• Wythnos Diogelwch yn yr Haul<br>• Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel<br>• Yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau ymhlith Plant | | |
| 2.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu darparu / bod negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi mewn perthynas â phob agwedd ar ddiogelwch? | • Y staff yn fodelau rôl ar gyfer ymddygiadau cadarnhaol (er enghraifft nid ydynt yn ysmygu nac yn yfed alcohol, ac maent yn defnyddio eli haul a hetiau haul)<br>• Mae polisïau'n berthnasol i ddigwyddiadau'r lleoliad<br>• Hyfforddiant i staff<br>• Rheolau'r lleoliad yn gyson â pholisïau diogelwch | | |

## Ethos a'r Amgylchedd

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Sut yr ydych yn creu amgylchedd dysgu diogel, a sut yr ydych yn cynnwys y plant? | • Cyfarfodydd staff i drafod gwelliannau o ran diogelwch<br>• Gweler y polisïau a'r gweithdrefnau yn 1.1, 1.2 ac 1.4<br>• Amser tacluso<br>• Dim annibendod na pheryglon<br>• Rheolau ar gyfer pob ardal chwarae | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.2 | Sut yr ydych yn sicrhau bod yr holl staff ac ymwelwyr yn cefnogi polisïau ac arferion y lleoliad? | • Y polisïau ar gael ar y wefan/ap neu mewn ffolder er mwyn i rieni/gofalwyr allu eu gweld<br>• Gweler 2.3 hefyd ynghylch negeseuon cyson<br>• Sesiynau sefydlu staff yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg a chyfrifoldebau'n ymwneud â diogelwch<br>• Llawlyfr y staff yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg a chyfrifoldebau'n ymwneud â diogelwch<br>• Y staff yn llofnodi polisïau a gweithdrefnau diogelwch i gadarnhau eu bod yn eu deall<br>• Diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau ac asesiadau risg yn ymwneud â diogelwch yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff<br>• Llyfr ymwelwyr<br>• Arwyddion diogelwch o amgylch y lleoliad (er enghraifft, cerdded ar y grisiau, gwirio offer chwarae cyn ei ddefnyddio)<br>• Hysbysfwrdd<br>• Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod amgylchedd y lleoliad cyfan, gan gynnwys yr ardal sydd y tu allan, yn ardal ddi-fwg lle na chaiff e-sigaréts eu defnyddio chwaith? | • Arwyddion<br>• Polisi<br>• Gwybodaeth ar hysbysfwrdd, cylchlythyrau, gwefan<br>• Ymwybyddiaeth o geir di-fwg | | |

| Cynnwys Teuluoedd a’r Gymuned | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 4.1 | Sut yr ydych yn ymgysylltu ag unigolion, asiantaethau allanol, busnesau a/neu aelodau’r gymuned er mwyn cynorthwyo’r plant a’r rhieni/gofalwyr gyda materion sy’n gysylltiedig â diogelwch, sylweddau a thybaco? | • Holiaduron i rieni/gofalwyr yn gofyn am gymorth perthnasol<br>• Cymorth i ddatblygu polisi gan sefydliadau partner megis Blynyddoedd Cynnar Cymru (www.earlyyears.wales/cy)<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) Helpa Fi i Stopio www.helpafiistopio.cymru/<br>• Ymwelwyr iechyd<br>• Asiantaethau cyfeirio sydd wedi cynorthwyo’r gwaith o ddatblygu polisïau<br>• Gwasanaethau brys (atal ac ymateb)<br>• Asiantaethau diogelu<br>• Tîm o amgylch y plentyn/teulu<br>• Y dyn neu’r ddynes lolipop<br>• Yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau ymhlith Plant | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2 | Sut y caiff gwybodaeth ei darparu i rieni/gofalwyr am sylweddau (gan gynnwys ysmygu a defnyddio e-sigaréts), pwysigrwydd diogelwch ac atal a rheoli heintiau? | • Cylchlythyrau, gwefannau a/ neu arddangosfeydd yn cynnwys gwybodaeth (er enghraifft, seddi ceir, diogelwch yn yr haul, diogelwch dŵr, Helpa Fi i Stopio, gwybodaeth am wahardd o’r lleoliad ar gyfer salwch plant)<br>• Gwybodaeth am fod yn ddi-fwg yn y pecyn croeso<br>• Hyrwyddo di-fwg ehangach (er enghraifft, ceir, cartrefi)<br>• Hyrwyddir ymgyrchoedd hybu iechyd (er enghraifft, diwrnod cenedlaethol dim ysmygu)<br>• Sesiynau Aros a Chwarae<br>• Rheoli salwch<br>• Gwybodaeth am achosion o salwch yn cael ei rhannu â rhieni/gofalwyr (er enghraifft, achosion o’r frech goch/diarrhea a chwydu)<br>• Gwybodaeth am imiwneiddio’n cael ei rhannu â rhieni/gofalwyr<br>• Cael gafael ar wybodaeth o wefan yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau ymhlith Plant i’w rhannu â rhieni/gofalwyr | | |

# HYLENDID

## Hylendid

**Mae hylendid da yn hollbwysig i leoliadau'r blynyddoedd cynnar ac**
**mae cyngor hylendid perthnasol ar gael yn y Canllawiau Cenedlaethol ar Ddiogelu Iechyd mewn Lleoliadau Gofal Plant.**

Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

| | |
|---|---|
| **D** | **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau. |
| **A** | **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i'r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae'r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion/llawr. |
| **N** | **Naratif** – mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu. |

| Arweinyddiaeth a Chyfathrebu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 1.1 | Pa bolisïau, gweithdrefnau a/neu asesiadau risg yn ymwneud â hylendid sydd gennych i arwain eich gwaith ar hylendid a rheoli heintiau, a sut maent yn cael eu hadolygu'n barhaus? | • Unigolyn a enwyd yn gyfrifol am hylendid neu agweddau ar hylendid yn cael ei gefnogi gan eraill (er enghraifft, gofalwr, goruchwyliwr adeilad)<br>• Polisi hylendid/atal a rheoli heintiau<br>• Polisi diogelwch bwyd, gweithdrefnau hylendid ac asesu risg yn seiliedig ar y Canllawiau Cenedlaethol ar Ddiogelu Iechyd mewn Lleoliadau Gofal Plant<br>• Defnyddio cyhoeddiad Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru: ‘Bwyd mwy diogel, busnes gwell ar gyfer gwarchodwyr plant’<br>• Mae hylendid cegin, paratoi bwyd a storio yn cyfeirio at weithdrefnau Dadansoddi Peryglon a Phwynt  Rheoli Critigol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Paratoi poteli a rhoi a storio llaeth y fron a llaeth fformiwla yn briodol<br>• Golchi dwylo<br>• Amserlenni glanhau adeiladau, cyfarwyddiadau a rhestrau gwirio (er enghraifft, ardaloedd codau lliw)<br>• Amserlenni glanhau teganau a chyfarpar<br>• Mynd i’r toiled: newid cewynnau, dysgu mynd i’r toiled, dysgu defnyddio’r poti<br>• Hylendid o ran dymis<br>• Hylendid o ran brwshis dannedd<br>• Hylif y corff a gwaed a gollir<br>• Golchi dillad<br>• Anifeiliaid anwes neu ymweliadau â fferm/sŵ/ysgolion coedwig<br>• Rheoli gwastraff<br>• Salwch/symptomau<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru - Yr amser a argymhellir ar gyfer cadw unigolion draw o leoliadau oherwydd heintiau cyffredin<br>• Llau pen | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2 | Sut yr ydych yn monitro, yn cofnodi ac yn adolygu polisïau a gweithdrefnau hylendid? | • Asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd<br>• Arolygiadau iechyd a diogelwch rheolaidd<br>• Adroddiadau gan sefydliadau eraill (er enghraifft, arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC))<br>• Arolygiadau iechyd yr amgylchedd<br>• Cofnodion cyfarfodydd staff<br>• Taflenni llofnodi yn cael eu cwblhau ar gyfer glanhau a mynd i'r toiled<br>• Tymheredd yr oergell yn cael ei gofnodi'n ddyddiol<br>• Cofnod salwch a symptomau ar gyfer staff a phlant | | |
| 1.3 | Sut yr ydych wedi ystyried yr Offeryn Gwella Ansawdd (Archwilio) Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer lleoliadau Gofal Plant ac Addysg yng Nghymru www.phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance a pha newidiadau ydych wedi'u gwneud? | • Cwblhau, rhannu ac ailadrodd yr offeryn archwilio yn unol â'r canllawiau bob tymor<br>• Rhannu'r archwiliad yn ystod cyfarfodydd tîm<br>• Adolygu'r archwiliad bob tymor yn unol â'r canllawiau<br>• Cyngor gan yr awdurdod lleol/Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru - Yr amser a argymhellir ar gyfer cadw unigolion draw o leoliadau oherwydd heintiau cyffredin | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.4 | Pa hyfforddiant sy'n ymwneud â hylendid y mae staff wedi'i dderbyn? Sut mae'r hyfforddiant hwn wedi dylanwadu ar arferion eich lleoliad? | • Hyfforddiant yn ymwneud â rheoli ac atal heintiau<br>• Hyfforddiant diogelwch bwyd<br>• Hyfforddiant ynghylch golchi dwylo<br>• Mae'r rhaglen sefydlu yn cynnwys hyfforddiant a gwybodaeth hylendid / atal a rheoli heintiau<br>• Mae cyfarfodydd staff yn cynnwys trafodaeth am hylendid / atal a rheoli heintiau<br>• Tystiolaeth o arfer | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.5 | Sut yr ydych yn ymgorffori hyblygrwydd er mwyn ymateb i faterion sy'n codi'n lleol (lle bo'n briodol)? | • Dilyn cyngor diogelu iechyd mewn ymateb i achosion a amheuir neu a gadarnhawyd o haint mewn lleoliadau gofal plant<br>• Defnyddio Yr amser a argymhellir ar gyfer cadw unigolion draw o leoliadau oherwydd heintiau cyffredin Iechyd Cyhoeddus Cymru (er enghraifft cyfyngu ar rai gweithgareddau yn ystod achosion)<br>• Rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am achosion o salwch ac anfon ymateb rhagweithiol (er enghraifft, anfon llythyrau/taflenni am lau pen at rieni/gofalwyr neu eu hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol neu'r apiau a ddefnyddir) | | |

| Cynllunio a Chyflawni | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Pa weithgareddau a phrofiadau yr ydych yn eu darparu sy’n annog hylendid da ymhlith y plant? | • Gweithgaredd coginio yn cynnwys ymdrin â diogelwch bwyd, gwisgo ffedogau, clymu gwallt hir yn ôl, ymolchi dwylo)<br>• Asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer gweithgareddau’n ymwneud â bwyd /chwarae blêr<br>• Gweithgareddau chwarae yn yr awyr agored/garddio yn cynnwys golchi dwylo a gwisgo oferôls, esgidiau glaw a menig<br>• Cefnogi hylendid personol annibynnol neu weithgareddau amser cylch yn seiliedig ar brofiadau bywyd go iawn (er enghraifft, golchi dwylo, brwsio dannedd, chwythu trwyn yn hylan, tisian, peswch a chael gwared ar hancesi - moesau peswch)<br>• Brwsio dannedd<br>• Mae gweithgaredd sy'n seiliedig ar anifeiliaid anwes yn cynnwys golchi dwylo ar ôl chwarae â nhw (yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol ar Ddiogelu Iechyd mewn Lleoliadau  Lleoliadau Gofal Plant ) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2 | Pa fentrau lleol a chenedlaethol yr ydych yn ymwneud â nhw i hyrwyddo hylendid da? | • Cynllun Gwên<br>• Mis Gwenu Cenedlaethol (Mai/ Mehefin)<br>• Diwrnod Golchi Dwylo Byd-eang (15 Hydref)<br>• Wythnos Diogelwch Bwyd (Mehefin)<br>• Dangosir sgôr yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel y bo'n briodol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu darparu/bod negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi mewn perthynas â hylendid? | • Mae polisïau a gweithdrefnau (a restrir yn 1.1) yn cyfleu negeseuon sy'n cyd-fynd ag arfer<br>• Mae staff yn ymddwyn fel modelau rôl ymddygiad cadarnhaol (er enghraifft golchi dwylo, diogelwch bwyd)<br>• Hancesi papur ar gael ar uchder sy'n addas i blant ym mhob ystafell<br>• Dŵr cynnes, sebon hylifol a thywelion papur ar gael i bob plentyn ac aelod o staff – a cyfeirir at y rhain<br>• Mae'r lleoliad yn atgyfnerthu trefn gadarnhaol o olchi dwylo (er enghraifft, cyn ac ar ôl bwyta, paratoi bwyd, ar ôl mynd i'r toiled a chwarae yn yr awyr agored)<br>• Canllawiau Cynllun Gwên ynghylch hylendid a rheoli heintiau'n cael eu dilyn<br>• Asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer gwibdeithiau i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael ar gyfer mynd i'r toiled a ymolchi dwylo | | |

| Ethos a’r Amgylchedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Sut yr ydych yn sicrhau bod yr holl staff ac ymwelwyr yn cefnogi polisïau ac arferion y lleoliad cyn-ysgol? | • Disgrifiadau swydd y staff yn dangos eu cyfrifoldebau o ran hylendid<br>• Unigolyn a enwyd yn gyfrifol am hylendid neu agweddau ar hylendid yn cael ei gefnogi gan eraill (er enghraifft, gofalwr, goruchwyliwr adeilad)<br>• Rota ddyletswyddau ar gyfer glanhau a hylendid<br>• Mae rhaglen sefydlu a/neu lawlyfr staff yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau a chyfrifoldebau hylendid/atal a rheoli heintiau<br>• Mae'r staff yn cadw rhestrau gwirio hylendid<br>• Mae'r staff yn llofnodi'r holl bolisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â hylendid i gadarnhau eu bod yn eu deall<br>• Mae diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â hylendid yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff<br>• Dysgu o achosion<br>• Rheolwyr yn trafod mewn cyfarfodydd tîm | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Y polisïau ar gael ar y wefan, ar y cyfryngau cymdeithasol neu mewn ffolder er mwyn i rieni/gofalwyr allu eu gweld.<br>• Gwybod gyda phwy i godi pryderon<br>• Arwyddion ynghylch hylendid yn cael eu harddangos o gwmpas y lleoliad (er enghraifft, ynghylch golchi dwylo, rhestrau gwirio'n cael eu harddangos, ffedogau'n cael eu darparu ac ati)<br>• Sicrhau bod staff yn gwybod ble i gael gwybodaeth diogelu iechyd ar-lein | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.2 | Pa ganllawiau yr ydych yn eu harddangos mewn perthynas â hylendid, a ble y cânt eu harddangos? | • Esbonio ble y mae’r dogfennau a grybwyllwyd yn 1.1 yn cael eu harddangos yn eich lleoliad<br>• Esbonio ble y mae'r restrau gwirio ar gyfer glanhau, hylendid yn y gegin a glanhau teganau a chyfarpar yn cael eu harddangos a'u cadw<br>• Posteri ynghylch sut a phryd i olchi dwylo’n cael eu harddangos wrth ymyl pob sinc<br>• Egluro ble mae canllawiau gwahardd o’r lleoliad oherwydd salwch/symptomau yn cael eu harddangos<br>• Y sgôr hylendid bwyd yn cael ei harddangos ar y drws<br>• Posteri ‘Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.’ yn cael eu harddangos<br>• Gweithdrefn gwaredu cewynnau | | |

## Cynnwys Teuluoedd a'r Gymuned

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sut yr ydych yn ymgysylltu ag unigolion, asiantaethau allanol, busnesau a/neu aelodau'r gymuned er mwyn cefnogi polisi, gweithdrefnau ac arferion sy'n ymwneud â hylendid? | • Cefnogaeth rhieni/gofalwyr<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<br>• Canllawiau Cenedlaethol ar Ddiogelu Iechyd mewn Lleoliadau Gofal Plant<br>• Cymorth i ddatblygu polisi gan sefydliadau partner a'r awdurdod lleol (er enghraifft, iechyd yr amgylchedd)<br>• Ymwelydd Iechyd/Nyrs Ysgol<br>• Tîm Cynllun Gwên<br>• Swyddog Iechyd yr Amgylchedd / Tîm Diogelu Iechyd Lleol / proses hysbysu digwyddiad tîm iechyd y cyhoedd lleol – tîm iechyd Ymateb Acíwt Cymru Gyfan | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2 | Sut yr ydych yn darparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr am bwysigrwydd hylendid da iddyn nhw ac i'w plant? | • Cylchlythyron, gwefannau cyfryngau cymdeithasol/apiau a/neu arddangosfeydd yn cynnwys gwybodaeth (er enghraifft, golchi dwylo, cyfnodau gwahardd o'r lleoliad oherwydd salwch/symptomau)<br>• Gwybodaeth i rieni/gofalwyr yn ystod achosion neu am reoli digwyddiadau<br>• Gwybodaeth am hylendid dyddiol plentyn neu bryder iechyd yn cael ei rhannu â'r rhieni/ gofalwyr yn nyddiadur y plentyn neu ar lafar drwy weithiwr allweddol<br>• Dylai negeseuon ganolbwyntio ar atal (er enghraifft trwy hyrwyddo arferion hylendid da) yn ogystal â rheoli digwyddiadau'n effeithiol (er enghraifft rhannu gwybodaeth a chyngor ynghylch achosion) | | |

| Safonau Hylendid – Gofynion Sylfaenol<br>Rhaid i’r gofynion hyn fod wedi’u bodloni er mwyn cyflawni meini prawf y wobr genedlaethol ar gyfer hylendid | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi wneud pob un ohonynt, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
| 5.1 | A oes gan y plant a'r staff fynediad bob amser i doiledau sydd wedi'u hawyru'n dda a'u glanhau'n rheolaidd? | • Diffinio'r weithdrefn arolygu | | |
| 5.2 | A ddarperir sebon hylifol, tywelion papur (sychwyr) a dŵr cynnes yn y toiledau ar gyfer y plant a’r staff? | • Mae sebon hylifol a thywelion papur cael eu ailgyflenwi'n rheolaidd | | |
| 5.3 | A ddarperir papur toiled yn y toiledau ar gyfer y plant a’r staff? | | | |
| 5.4 | A ddarperir tywelion papur/sychwyr dwylo mewn toiledau ar gyfer plant a staff? | | | |
| 5.5 | A oes canllawiau yn cael eu harddangos i’r plant a’r staff ynghylch pryd a sut i olchi dwylo? | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.6 | Mae cyfleusterau gwaredu eitemau mislif ar gael i’r staff? | • (er enghraifft offer gwaredu eitemau mislif PHS, biniau â chaead) | | |
| 5.7 | A yw pob toiled yn cael eu glanhau a'u monitro? | • Rota lanhau ar gyfer y toiledau<br>• Taflen lofnodi ar gyfer glanhau’r toiledau | | |
| 5.8 | A yw'r plant a'r staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta a gweini bwyd? | | | |
| 5.9 | A yw peiriannau oeri dŵr yn cael eu glanhau a'u cynnal a'u cadw? | • Taflen rhoi gwasanaeth i’r peiriant oeri dŵr<br>• Taflen gwirio gosodiadau’r peiriant oeri dŵr<br>• Diffinio'r weithdrefn arolygu | | |
| 5.10 | Os yw’r plant yn yfed dŵr o boteli, ni chaiff y poteli hynny eu rhannu ac a oes gweithdrefnau clir ar gyfer golchi’r poteli? | • Gweithdrefn ar waith ar gyfer golchi poteli dŵr<br>• Caiff poteli dŵr personol plant eu hanfon adref er mwyn i rieni/gofalwyr eu golchi<br>• Caiff pob potel ei rhoi yn y peiriant golchi llestri’n wythnosol<br>• Caiff pob potel ei sterileiddio’n wythnosol | | |
| 5.11 | A yw glendid ystafell staff/cegin yn cael ei gynnal? | • Rota ar gyfer glanhau’r ystafell staff a rhestrau gwirio ar waith (er enghraifft microdon, gwiriadau oergell, sinc) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.12 | A yw rhieni/gofalwyr yn cael arweiniad ar absenoldeb oherwydd salwch / symptomau? | Mae gwybodaeth yn cael ei darparu:<br>• mewn pecynnau i rieni/gofalwyr<br>• hysbysfwrdd<br>• ar wefan/cyfryngau cymdeithasol/apiau<br>• mewn llythyrau a cylchlythyrau | | |
| 5.13 | A yw'r lleoliad wedi cyflawni sgôr Safonau Bwyd o 3 neu uwch o dan Gynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd? | • Sticer wedi'I arddangod yn y lleoliad<br>• Adroddiad o ymweliad achredu | | |
| 5.14 | A oes cyfleusterau ar gael i baratoi'n lanwaith ar gyfer bwydo babanod? | • Dilynwch Llaeth i Fabanod yn y Canllawiau Cenedlaethol ar Ddiogelu Iechyd mewn Lleoliadau Gofal Plant www.gov.uk/government/publications/health-protection-in-schools-and-other-childcare-facilities | | |
| 5.15 | Defnyddir cyfarpar sterileiddio addas ar gyfer dymis a chyfarpar bwydo babanod? | • Dilynwch Llaeth i Fabanod yn y Canllawiau Cenedlaethol ar Ddiogelu Iechyd mewn Lleoliadau Gofal Plant | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.16 | Os oes unrhyw anifeiliaid ar y safle, a ydynt yn ddiogel i fod yn agos at blant ac nad ydynt yn peri risg i iechyd? | • Polisi neu weithdrefn ar waith<br>• Asesiad risg<br>• Ystyried cofnodion perchnogaeth a brechu | | |

# IECHYD A LLES YN Y GWEITHLE

## Iechyd a Lles yn y Gweithle

****Nid yw'r adran hon yn berthnasol i warchodwyr plant sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ****

**Mae'r adran hon yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithle sy'n hybu iechyd ac sydd wedi ymrwymo i ddiogelu iechyd a lles yr holl staff. Mae arferion gweithio teg mewn amgylcheddau iach a diogel yn bwysig ar gyfer iechyd a lles corfforol a meddyliol. Mae gweithleoedd hefyd yn lleoliadau pwysig i hyrwyddo a normaleiddio ymddygiadau ffordd iach o fyw. Mae cyflogwyr sy'n mabwysiadu arferion gweithio ac amgylcheddau sy'n hybu iechyd da ac yn atal afiechyd yn fwy tebygol o fod â gweithlu hapus, iach a chynhyrchiol, gyda lefelau is o absenoldeb oherwydd salwch.**

Rhaid mynd i'r afael â phob cwestiwn a rhaid bod o leiaf un darn o dystiolaeth ar gael adeg yr asesiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau, gwaith arsylwi neu naratif:

| | |
|---|---|
| D | **Dogfennau** – er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig megis polisïau, ffotograffau, gwaith y plant, gwaith cynllunio, llythyrau, cylchlythyrau, apiau, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y lleoliad, nodiadau cyfarfodydd a darnau allan o adroddiadau. |
| A | **Gwaith arsylwi** – gallai fod yn waith arsylwi gan y cydlynydd lleol. Rhaid iddo fod wedi digwydd o fewn 12 mis i'r asesiad. Gall y cydlynydd lleol ychwanegu dyddiad a llofnod i nodi ei fod wedi arsylwi'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i ddisgrifio. Yn ogystal, tystiolaeth a arsylwyd yw tystiolaeth y mae'r aseswyr yn ei gweld yn ystod eu hamser yn y lleoliad, er enghraifft arddangosfeydd, arwyddion a llyfrau lloffion/llawr. |
| N | **Naratif** – mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolion, grwpiau, asiantaethau partner neu blant yn ystod yr ymweliad asesu. |

| Arweinyddiaeth a Chyfathrebu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Pa bolisïau sydd gennych i arwain eich gwaith ar sicrhau iechyd a lles y staff? Sut y cânt eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd? | Ystod o bolisïau perthnasol megis:<br>• Polisi ynghylch iechyd a lles y staff<br>• Polisi cyfrinachedd staff<br>• Polisi cydraddoldeb staff<br>• Polisi ynghylch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith<br>• Polisi gweithio hyblyg<br>• Polisi salwch staff a dychwelyd i'r gwaith<br>• Polisi bwlio ac aflonyddu<br>• Staff dynodedig i arwain y gwaith ar iechyd a lles staff<br>• Gweithgor neu bwyllgor iechyd a lles i oruchwylio ac adolygu polisïau a gweithredu gweithgareddau/mentrau iechyd a lles<br>• Adolygu polisïau'n flynyddol (neu'n gynt os oes angen) (er enghraifft, newidiadau mewn deddfwriaeth, materion a godwyd)<br>• Cynnwys staff mewn adolygiadau; sicrhau bod staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau<br>• Creu diwylliant nad yw'n goddef ymddygiad amhriodol ymhlith gweithwyr o fewn neu'r tu allan i'r gweithle<br>• Cytundeb cyflogaeth staff | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2 | Sut yr ymgynghorir â'r staff a sut y cânt eu cynnwys yn ystod y broses o ddatblygu gweithle sy'n hybu iechyd? | • Arweinydd lles wedi'i enwi<br>• Holiaduron ynghylch iechyd a lles y staff<br>• Cyfarfodydd staff i drafod lles<br>• Mae lles bob amser yn bwnc agenda mewn cyfarfodydd un-i-un<br>• Blwch syniadau/awgrymiadau<br>• Y staff yn arwain y gwaith o drefnu gweithgareddau'n ymwneud â lles a gweithgareddau cymdeithasol i'r staff (er enghraifft, sesiwn gerdded, digwyddiadau cymdeithasol i'r staff) | | |
| 1.3 | Sut yr ydych yn sicrhau bod y staff yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisi a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau? | • Cynrychiolaeth o bob grŵp staff mewn gweithgor/pwyllgor iechyd a lles sy'n adolygu polisïau<br>• Y staff yn cael gwybod am bolisïau a gweithdrefnau yn ystod sesiynau sefydlu<br>• Y polisïau a'r gweithdrefnau yn llawlyfr y staff<br>• Y staff yn llofnodi polisïau i nodi eu bod wedi'u darllen<br>• Y polisïau'n cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd tîm fel rhan o'r adolygiad o ansawdd gofal | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Mentrau i dynnu sylw at bolisïau (er enghraifft, polisi'r wythnos ar y fewnrwyd)<br>• Polisïau a gweithdrefnau’n cael eu trafod yn rhan o arfarniadau / adolygiadau blynyddol<br>• Hyfforddiant yn cael ei ddarparu i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r staff am bolisïau neu weithdrefnau | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.4 | Sut yr ydych yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth am iechyd, diogelwch a lles? | Rhaglen hyfforddi allanol a/neu fewnol gydgysylltiedig ar waith y gall pob aelod o staff gael mynediad ati, megis:<br>• Hyfforddiant rheoli straen<br>• Hyfforddiant cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth<br>• E-ddysgu ar gyfer cyrsiau megis rhai'n ymwneud â diogelwch bwyd a diogelu<br>• Hyfforddiant ar gael i staff sydd â meysydd cyfrifoldeb penodol, (er enghraifft, hyfforddiant arfarnu/hyfforddiant goruchwylio a hyfforddiant effeithiol ar reoli absenoldeb oherwydd salwch i arweinwyr a rheolwyr)<br>• Taflenni, cylchlythyr, hysbysfwrdd, Sefydliad Prydeinig y Galon<br>• Mentrau sy'n canolbwyntio ar staff (er enghraifft cefnogi maeth a gweithgarwch corfforol staff) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Y staff yn cael gwybodaeth am iechyd yn ystod amser egwyl<br>• Codi a chario/symud a thrin, diogelwch tân, iechyd, diogelwch a lles, hyfforddiant atal a rheoli heintiau | | |
| 1.5 | Sut yr ydych yn gwybod bod polisïau, mentrau a hyfforddiant wedi dylanwadu ar arfer o fewn y lleoliad? | • Monitro lefelau salwch<br>• Arolwg staff iechyd a lles<br>• Rhannu a defnyddio canllawiau ac adnoddau iechyd a llesiant sydd ar gael ar wefan Cymru Iach ar Waith gan gynnwys iechyd meddwl, ymddygiadau ffordd o fyw (er enghraifft ysmygu) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.6 | Sut mae'r lleoliad yn dangos cefnogaeth i staff i gynnal eu lles emosiynol a meddyliol? | • Polisïau perthnasol ar waith<br>• Mae systemau cymorth ar waith, (er enghraifft, goruchwyliaeth staff rheolaidd neu fynediad at wasanaeth megis rhaglenni cymorth i weithwyr)<br>• Mecanweithiau cymorth cymheiriad i gymheiriad<br>• Gweithgareddau sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi trwy'r gweithle (er enghraifft pynciau fel bwyta'n iach, gweithgaredd corfforol, cysylltedd cymdeithasol a hyrwyddir trwy fentrau, gwybodaeth, canllawiau, polisïau ac ati) | | |
| | | • Defnyddio canllawiau ac adnoddau sydd ar gael drwy wefan Cymru Iach ar Waith<br>• Defnyddio adnoddau MIND gan gynnwys cynlluniau gweithredu llesiant<br>• Cwblhau asesiadau risg yn ymwneud â gofynion swyddi | | |

## Cynllunio a Chyflawni

| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Pa gyfle y mae'r staff yn ei gael i drafod materion sy’n ymwneud â’u swydd, a pha gymorth yr ydych yn ei gynnig pan fyddant yn ymdrin â materion sensitif? | • Cyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda'r rheolwr/arweinydd tîm<br>• Cyfarfodydd tîm rheolaidd<br>• Cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y lleoliad cyfan<br>• Polisi drws agored gyda rheolwyr/strwythur rheoli cefnogol<br>• Staff yn bydis i’w gilydd<br>• Llinell gyngor iechyd galwedigaethol i reolwyr a staff<br>• Mynediad neu gyfeirio at raglen cymorth gweithwyr a/neu gwnsela neu wasanaethau cymorth eraill<br>• Delio â chwynion mewn ffordd dosturiol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2 | Pa ddull yr ydych yn ei ddefnyddio i fesur bodlonrwydd y staff? | • Holiaduron staff / arolygon / adborth rheolaidd<br>• Rhannu canmoliaeth a dathlu llwyddiant<br>• Cyfarfodydd tîm neu leoliad cyfan<br>• Trafodaethau anffurfiol<br>• Barn y staff<br>• Trosiant staff<br>• Cyfweliadau ymadael<br>• Blwch awgrymiadau (dienw)<br>• Goruchwylio/gwerthuso | | |
| 2.3 | Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd yn dilyn adborth gan y staff? | • Manylion unrhyw newidiadau a waned o ganlyniad I adborth neu awgrymiadau gan y staff<br>• Adborth ar pam na ellir gweithredu newidiadau | | |
| **Ethos a'r Amgylchedd** | | | | |
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | A oes gan y staff amseroedd penodol ar gyfer cael egwyl ac amser cinio i ffwrdd oddi wrth y plant? | • Rota / amserlen ar gyfer amseroedd egwyl y staff<br>• Llawlyfr / sesiynau sefydlu’r staff | | |
| 3.2 | A yw’r staff o’r farn bod cyfleusterau’r ystafell staff yn ddigonol (os yn berthnasol)? | • Ystafell sydd i ffwrdd oddi wrth y plant<br>• Cyfleusterau i goginio a pharatoi diodydd poeth ac ati<br>• Cyfleusterau priodol ar gyfer mamau sy'n bwydo ar y fron<br>• Lle i eistedd a byrddau<br>• Seddi y tu allan/mynediad i ofod awyr agored cadarnhaol<br>• Yn lân ac yn daclus (er enghraifft sut maent yn cael eu cynnal a'u cadw?)<br>• Archwiliwyd yn holiadur y staff | | |
| 3.3 | A oes toiledau ar wahân ar gael i’r oedolion, lle bo’n ymarferol? | | | |
| 3.4 | Sut yr ydych yn helpu’r staff i fynd i’r afael â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith? | • Llawlyfr y staff<br>• Polisi gweithio hyblyg<br>• Rhoi cyngor ac arweiniad<br>• Goruchwylio/gwerthuso/arfarniadau perfformiad ac adolygiadau datblygiad<br>Polisi drws agored | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.5 | Sut mae'r lleoliad yn monitor salwch staff, absenoldeb, gweithdrefnau dychwelyd i'r gwaith, trosiant staff a swyddi gweigion? | • Llawlyfr y staff<br>• Holiadur dychwelyd i'r gwaith<br>• Cyfweliad ymadael<br>• Asesiad risg (gweithle, beichiogrwydd - addasiadau rhesymol) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.6 | Pa weithgareddau yr ydych yn eu darparu er mwyn helpu'r staff i ddatblygu eu hyder, eu hunan-barch a'u lles nhw eu hunain a hyder, hunan-barch a lles pobl eraill? | • Mae gan y staff gyfrifoldebau penodol er mwyn datblygu hyder<br>• Mae staff yn cymryd eu tro i drefnu digwyddiadau cymdeithasol, neu weithgareddau rheolaidd (rhithwir neu wyneb yn wyneb)<br>• Gweithgareddau grŵp neu nodau (er enghraifft Couch to 5k a parkrun, ioga, hyfforddiant beicio)<br>• Trefnir sesiwn rhannu gwybodaeth am les i'r staff, a chaiff siaradwyr gwadd eu croesawu iddi, er enghraifft siaradwr i sôn am gyffuriau ac alcohol, siaradwr o Helpa Fi i Stopio, deietegydd)<br>• Defnyddio grŵp cyfryngau cymdeithasol caeedig ar gyfer cefnogaeth a chymdeithasu | | |
| 3.7 | Pa ddigwyddiadau cymdeithasol a gaiff eu trefnu ar gyfer y staff? | • Teithiau cerdded a digwyddiadau noddedig<br>• Gweithgareddau rhithwir neu wyneb yn wyneb (er enghraifft, nosweithiau cwis tîm)<br>• Digwyddiadau elusennol (er enghraifft Tough Mudder, Tickled Pink, Muddy Runs) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.8 | Sut yr ydych yn cyfathrebu â phob aelod o staff? | • Cyfarfod briffio dyddiol i bob aelod o staff<br>• Digidol – mewnrwyd, bwrdd gwyn digidol, cyfryngau cymdeithasol, grwpiau WhatsApp<br>• Cylchlythyrau<br>• Tyllau colomen ar gyfer yr holl staff<br>• Hysbysfwrdd<br>• Cyfarfodydd un-i-un, cyfarfodydd tîm, polisi drws agored, sesiynau galw heibio | | |
| **Cynnwys Teuluoedd a’r Gymuned** | | | | |
| | **Cwestiynau asesu**<br>Mae angen mynd i’r afael â’r holl gwestiynau hyn | **Enghreifftiau**<br>Dyma syniadau ynghylch pethau y gallech eu hystyried; nid oes disgwyl i chi gyflawni pob un ohonynt, ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr | **Tystiolaeth o’r pethau yr ydym wedi’u gwneud**<br>(D A N) | **Llofnod a dyddiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Pa fynediad sydd gan staff at wasanaethau arbenigol? | • Gwybodeth an bynciau iechyd, canllawiau, cyfeirio at wasanaethau sydd ar gael ar wefan Cymru Iach ar Waith<br>• Rhaglen cymorth i weithwyr neu Iechyd ar Waith, Llinell Gymorth Cymru<br>• Iechyd Galwedigaethol<br>• GIG 111 Cymru<br>• Gwybodaeth ar y fewnrwyd am wasanaethau lleol neu genedlaethol a llinellau cymorth | | |